



edexcel 

Unedau

Dyfarniadau Cyntaf BTEC

**Edexcel Lefel 2 BTEC Tystysgrif/Tystysgrif Estynedig/
Diploma mewn Cynhyrchu Cyfryngau Creadigol**

I'w haddysgu gyntaf Medi 2010

Gorffennaf 2011



Translated by: Fiona Gannon

Proofread by: Catrin Alun

Cynnwys

| | | |
|----------|---|----|
| Uned 1: | Ymchwil ar gyfer Cynhyrchu Cyfryngau Creadigol | 1 |
| Uned 2: | Technegau Cyfathrebu ar gyfer Cynhyrchu Cyfryngau Creadigol | 5 |
| Uned 3: | Y Sector Cyfryngau Creadigol | 9 |
| Uned 4: | Cynulleidfaoedd a Chynnyrch y Cyfryngau | 13 |
| Uned 5: | Cynhyrchiad Fideo | 17 |
| Uned 6: | Cynhyrchiad Sain | 21 |
| Uned 7: | Cynhyrchiad Printiedig | 25 |
| Uned 8: | Cynhyrchiad Cyfryngau Rhyngweithiol | 29 |
| Uned 9: | Technegau Ffotograffiaeth | 35 |
| Uned 10: | Technegau Animeiddio | 39 |
| Uned 11: | Awduro ar y We | 43 |
| Uned 12: | Graffeg Ddigidol ar gyfer Cyfryngau Rhyngweithiol a Phrintiedig | 47 |
| Uned 13: | Celf Ddigidol 2D ar gyfer Gemau Cyfrifiadur | 53 |
| Uned 14: | Dadelfennu gemau cyfrifiadur | 59 |
| Uned 15: | Profi gemau cyfrifiadur | 63 |
| Uned 16: | Peiriannau gemau cyfrifiadur 2D | 69 |
| Uned 17: | Peiriannau gemau cyfrifiadur 3D | 73 |
| Uned 18: | Cynhyrchu Hysbysebion | 79 |
| Uned 19: | Ysgrifennu ar gyfer y Cyfryngau Creadigol | 83 |
| Uned 20: | Cynhyrchu Ffeithiol ar gyfer y Cyfryngau Creadigol | 89 |
| Uned 21: | Prosiect Cynhyrchu'r Cyfryngau Creadigol | 95 |

Uned 1: Ymchwil ar gyfer Cynhyrchu Cyfryngau Creadigol

| | |
|-----------------------------------|-------------------------------|
| Côd yr Uned: | F/600/6460 |
| FfCC Lefel 2: | Tystysgrif Gyntaf BTEC |
| Gwerth credydau : | 5 |
| Oriau dysgu dan arweiniad: | 30 |

Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yw galluogi dysgwyr i ddatblygu sgiliau yn y prif ddulliau a thechnegau ymchwil a ddefnyddir yn y sector cyfryngau creadigol. Bydd dysgwyr yn gwneud hyn trwy ymchwilio i gynnyrch cyfryngau sydd eisoes yn bodoli a thrwy gynnal ymchwil ar gyfer un o'u prosiectau cynhyrchu eu hunain.

Cyflwyniad i'r Uned

Ymchwil yw sylfaen holl gynhyrchu'r cyfryngau, boed hynny er mwyn casglu deunyddiau ar gyfer cynnwys cynhyrchiad newydd, er mwyn asesu gofynion technegol a logisteg, neu er mwyn sefydlu dichonoldeb masnachol cynnyrch newydd arfaethedig. Ymchwilir hefyd i werthiant cynnyrch a gweithgarwch y gynulleidfa (beth mae pobl yn ei brynu, yn ei wyllo, yn gwrandao arno, ac yn logio i mewn iddo, pam maent yn gwneud dewisiadau penodol, beth maent yn ei hoffi neu ddim yn ei hoffi ac ati) er mwyn helpu cwmnïau cynhyrchu'r cyfryngau i benderfynu beth maent am ei greu a'r ffordd orau o leoli eu cynnyrch yn y farchnad neu'r amserlenni rhaglenni. Mae'r ymchwil hon i'r gynulleidfa hefyd yn hollbwysig i gwmnïau hysbysebu. Beth bynnag yw diben yr ymchwil, yr un dulliau sylfaenol a ddefnyddir i raddau helaeth.

Bydd yr uned hon yn galluogi dysgwyr i ddatblygu dealltwriaeth o'r dulliau a'r technegau ymchwil sylfaenol a ddefnyddir yn y sector cyfryngau creadigol trwy ymchwilio i gynnyrch cyfryngau sydd eisoes yn bodoli yn ogystal â chynnal ymchwil ar gyfer un o'u prosiectau cynhyrchu cyfryngau eu hunain. Trwy gynnal y ddau weithgaredd ymchwil gwahanol yma, bydd dysgwyr yn dysgu sut mae canfod ffynonellau dibynadwy o wybodaeth, ac yna eu defnyddio i gasglu deunydd perthnasol. Bydd dysgwyr hefyd yn datblygu sgiliau o ran casglu, coladu a storio'r deunydd a gynhowyd. Wedyn bydd dysgwyr yn cael cyfle i gyflwyno canlyniadau eu hymchwil.

Canlyniadau dysgu

Ar ôl cwblhau'r uned hon dylai dysgwr:

- 1 Wybod am ddulliau a thechnegau ymchwil
- 2 Gallu defnyddio dulliau a thechnegau ymchwil i ymchwilio i gynnyrch cyfryngau sydd eisoes yn bodoli
- 3 Gallu defnyddio dulliau a thechnegau ymchwil i grynhoi deunydd ar gyfer cynhyrchiad cyfryngau
- 4 Gallu cyflwyno canlyniadau ymchwil.

Cynnwys yr Uned

1 Gwybod am dulliau a thechnegau ymchwil

Dulliau: cynradd; eilaidd; ansoddol, e.e. barn, agweddau, patrymau ymddygiad; meintiol, e.e. maint cynulleidfa, ffigurau cylchrediad, nifer yr ymweliadau ar y we

Technegau: defnyddio llyfrgelloedd; defnyddio'r rhyngwrwyd; darllen; chwilio mewn archifau; cyfweliadau; arsylwadau; holiaduron; arolygon; grwpiau ffocws; rhagchwiliad

Trywydd gwybodaeth: log o'r llyfrgell; chwiliadau ar y rhyngwrwyd ac mewn archifau

Coladu: chwynnu a dethol; trefnu, e.e. yn ôl enw, dyddiad, math, cynnwys, ffynhonnell gwybodaeth; mynegai

Storio: storio diogel; mynediad hwylus

2 Gallu defnyddio dulliau a thechnegau ymchwil i ymchwilio i gynnyrch cyfryngau sydd eisoes yn bodoli

Cynnyrch cyfryngau: e.e. ffilm, rhaglen deledu, DVD, papur newydd, cylchgrawn, rhaglen radio, cynnyrch sain, hysbyseb, gêm cyfrifiadur, cynnyrch cyfryngau rhyngweithiol

Diben yr ymchwil: e.e. canfod cyfansoddiad y gynulleidfa, canfod maint y gynulleidfa, archwilio derbynid y cynnyrch, ei gymharu â chynnyrch eraill tebyg, archwilio'r broses gynhyrchu neu ei hanes

3 Gallu defnyddio dulliau a thechnegau ymchwil i grynhoi deunydd ar gyfer cynhyrchiad cyfryngau

Cynhyrchu cyfryngau: e.e. cynhyrchu delweddau symudol, cynhyrchu print, cynhyrchu radio, recordio sain, gêm cyfrifiadur, cynhyrchu cyfryngau rhyngweithiol

Deunydd: e.e. data, gwybodaeth, deunydd archifau, gweledol, clyweledol, clywedol

4 Gallu cyflwyno canlyniadau ymchwil

Fformat: e.e. adroddiad ysgrifenedig, cyflwyniad llafar, cyflwyniad PowerPoint, cyflwyniad clyweledol, cyflwyniad unigol, cyflwyniad grŵp

Cynnwys: diben; gweithdrefnau; crynodeb o ddata a deunydd, e.e. graffeg, siartiau, tablau; dadansoddiad; canlyniadau; casgliadau; llyfryddiaeth o'r ffynonellau

Mynegiant: strwythur; eglurder; cywair ieithyddol; cydnabod y gynulleidfa

Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth a gyflwynir gan ddysgwyr i'w hasesu ddangos eu bod yn medru cyflawni'r holl ganlyniadau dysgu ar gyfer yr uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

| Meini prawf asesu a graddio | | |
|---|--|---|
| I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu: | I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu: | I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu: |
| LI1 amlinellu dulliau a thechnegau ymchwil | T1 disgrifio dulliau a thechnegau ymchwil gyda pheth manylder, a chan gyfeirio at enghreifftiau priodol ohonynt | Rh1 gwerthuso dulliau a thechnegau ymchwil, gan gyfeirio at enghreifftiau manwl ohonynt |
| LI2 defnyddio dulliau a thechnegau ymchwil priodol i gynnal ymchwil ar gynnyrch cyfryngau sydd eisoes yn bodoli [YA] | T2 defnyddio dulliau a thechnegau ymchwil yn gymwys i gynnal ymchwil ddibynadwy ar gynnyrch cyfryngau sydd eisoes yn bodoli | Rh2 defnyddio dulliau a thechnegau ymchwil yn fedrus i gynnal ymchwil sylweddol ar gynnyrch cyfryngau sydd eisoes yn bodoli |
| LI3 defnyddio dulliau a thechnegau ymchwil priodol i gynnal ymchwil ar gyfer cynhyrchiad cyfryngau arfaethedig [YA] | T3 defnyddio dulliau a thechnegau ymchwil yn gymwys i gynnal ymchwil ddibynadwy ar gyfer cynhyrchiad cyfryngau arfaethedig | Rh3 defnyddio dulliau a thechnegau ymchwil yn fedrus i gynnal ymchwil sylweddol ar gyfer cynhyrchiad cyfryngau arfaethedig |
| LI4 cyflwyno canlyniadau ymchwil. | T4 cyflwyno canlyniadau ymchwil yn gymwys, gyda pheth manylder. | Rh4 cyflwyno canlyniadau ymchwil yn fedrus gyda chryn fanylder. |

PLTS: Lle bo hynny'n berthnasol, mae'r crynodeb hwn yn cyfeirio, mewn cromfachau petryal, at elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol i'r meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i ddysgwyr ddangos eu bod yn cymhwyso'r elfennau y cyfeiriwyd atynt o'r sgiliau hynny yn effeithiol.

| Allwedd | YA - ymholwyr annibynnol MC - meddylwyr creadigol | DA - dysgwyr adfyfyriol GT - gweithwyr tîm | HR - hunanreolwyr CE - cyfranogwyr effeithiol |
|---------|--|---|--|
|---------|--|---|--|

Uned 2: **Technegau Cyfathrebu ar gyfer Cynhyrchu Cyfryngau Creadigol**

| | |
|-----------------------------------|-------------------------------|
| Côd yr Uned: | M/600/6468 |
| FfCC Lefel 2: | Tystysgrif Gyntaf BTEC |
| Gwerth credydau : | 5 |
| Oriau dysgu dan arweiniad: | 30 |

Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yw datblygu sgiliau cyfathrebu dysgwyr mewn cyd-destunau cynhyrchu cyfryngau. Mae'n cwmpasu cyfathrebu llafar ac ysgrifenedig, ffurfiol ac anffurfiol, gan ddefnyddio'r fformatau, y ddogfennaeth a'r technolegau angenrheidiol i gyfathrebu'n effeithiol yn sector y cyfryngau.

Cyflwyniad i'r Uned

Yn holl ddiwydiannau'r cyfryngau, lle gwneir cymaint o waith mewn timau, mae'n hanfodol bod pobl yn gallu cyfathrebu'n effeithiol, gan drosglwyddo syniadau a gwybodaeth i eraill a dehongli'r hyn mae eraill yn ei ddweud wrthynt yn gywir. Mae hyn yr un mor bwysig wrth weithio gyda chleientiaid a chyflwyno syniadau a gwybodaeth iddynt. Nid sgiliau cyfathrebu ar lafar yn unig sy'n bwysig; gwelir cyfathrebu ysgrifenedig hefyd fel arwydd o allu unigolyn i gynnal safonau proffesiynol.

Mae'r uned hon yn canolbwyntio ar y sgiliau cyfathrebu sy'n ofynnol yn sector y cyfryngau. Ei nod yw datblygu gallu'r dysgwr i gyfathrebu'n effeithiol ag eraill, mewn sefyllfaoedd grŵp ac un i un.

Bydd dysgwyr yn ystyried sut maent yn eu cynrychioli eu hunain i eraill trwy gyfathrebu â hwy. Mae bod yn broffesiynol yn golygu sicrhau bod yr holl ddeunyddiau ysgrifenedig wedi eu cynllunio'n dda, yn gryno, a heb wallau, yn cael eu cyflwyno yn y fformatau cywir, ac yn defnyddio'r arddulliau a'r confensiynau priodol ar gyfer y cyfrwng y gweithir ynddo.

Canlyniadau dysgu

Ar ôl cwblhau'r uned hon dylai dysgwr:

- 1 Allu cyfathrebu mewn trafodaethau ynghylch cynhyrchu cyfryngau
- 2 Gallu cyflwyno gwybodaeth a syniadau ar lafar i gynulleidfa
- 3 Gallu cyfathrebu gwybodaeth a syniadau mewn fformatau ysgrifenedig ar gyfer cynhyrchu cyfryngau.

Cynnwys yr Uned

1 Gallu cyfathrebu mewn trafodaethau ynghylch cynhyrchu cyfryngau

Cyfathrebu ar lafar: eglurder lleisiol; goslef y llais; eglurder mynegiant; defnydd o iaith dechnegol

Rhyngweithio ag eraill: gofyn cwestiynau; cymryd tro; parchu barn eraill; cyfathrebu di-eiriau;

2 Gallu cyflwyno gwybodaeth a syniadau ar lafar i gynulleidfa

Technoleg cyflwyniadau: meddalwedd cyflwyniadau, e.e. PowerPoint, Keynote, Google Presentation, SlideRocket, Adobe Acrobat; dylunio sleidiau; trawsnewid; cymhorthion gweledol, e.e. animeiddiadau, clipiau fideo, clipiau sain, clip art, siartiau, graffiau, cipluniau, tudalennau ar y we; taflenni i'w dosbarthu; materion hawlfraint

Rhyngweithio â'r gynulleidfa: eglurder lleisiol; cywair; arddull, e.e. awdurdodol, llawn hiwmor, addysgiadol, llawn cymhelliant; eglurder mynegiant; defnydd o iaith dechnegol; cynnal diddordeb, e.e. cyswllt llygad, ategu pwyntiau, cyfeirio at y sgrîn

3 Gallu cyfathrebu gwybodaeth a syniadau mewn fformatau ysgrifenedig ar gyfer cynhyrchu cyfryngau

Fformatau: e.e. cynigion, triniaethau, dogfennaeth gynhyrchu, adroddiadau, e-byst, nodiadau atgoffa

Geirfa: technegol; ffurfiol; acronymau a byrfoddau

Adolygu: gwirio electronig; prawfddarllen; sillafu; atalnodi; gramadeg; eglurder mynegiant; strwythur y cynnwys

Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth a gyflwynir gan ddysgwyr i'w hasesu ddangos eu bod yn medru cyflawni'r holl ganlyniadau dysgu ar gyfer yr uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

| Meini prawf asesu a graddio | | |
|---|---|--|
| I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu: | I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu: | I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu: |
| LI1 cyfathrebu gwybodaeth a syniadau mewn trafodaethau ynghylch cynhyrchu cyfryngau, a hynny'n ddigon eglur i gael eu deall | T1 cyfathrebu gwybodaeth a syniadau mewn trafodaethau ynghylch cynhyrchu cyfryngau yn eglur ar y cyfan | Rh1 cyfathrebu gwybodaeth a syniadau mewn trafodaethau ynghylch cynhyrchu cyfryngau yn hyderus ac yn eglur yn gyson |
| LI2 defnyddio meddalwedd i greu cyflwyniadau sylfaenol [MC] | T2 defnyddio meddalwedd i greu cyflwyniadau cymwys | Rh2 defnyddio meddalwedd i greu cyflwyniadau effeithiol, wedi eu strwythuro'n dda |
| LI3 annerch cynulleidfa a rhyngweithio â hi yn briodol | T3 annerch cynulleidfa a rhyngweithio â hi yn effeithiol | Rh3 annerch cynulleidfa a rhyngweithio â hi yn hyderus |
| LI4 cyflwyno gwybodaeth a syniadau ar gyfer cynhyrchu cyfryngau yn briodol mewn fformatau ysgrifenedig, a hynny'n ddigon eglur i gael eu deall | T4 cyflwyno gwybodaeth a syniadau ar gyfer cynhyrchu cyfryngau mewn fformatau ysgrifenedig, a hynny'n gryno ac yn eglur ar y cyfan | Rh4 cyflwyno gwybodaeth a syniadau ar gyfer cynhyrchu cyfryngau mewn fformatau ysgrifenedig, a hynny'n glir, gydag eglurder cyson |
| LI5 cywiro dogfennau gan ddefnyddio cymhorthion electronig sylfaenol. [DA] | T5 cywiro camsillafu mewn dogfennau trwy brawfddarlenn effeithiol. | Rh5 gwella eglurder dogfennau trwy brawfddarlenn effeithiol. |

PLTS: Lle bo hynny'n berthnasol, mae'r crynodeb hwn yn cyfeirio, mewn cromfachau petryal, at elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol i'r meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i ddysgwyr ddangos eu bod yn cymhwyso'r elfennau y cyfeiriwyd atynt o'r sgiliau hynny yn effeithiol.

| Allwedd | YA - ymholwyr annibynnol MC - meddylwyr creadigol | DA - dysgwyr adfyfyriol GT - gweithwyr tîm | HR - hunanreolwyr CE - cyfranogwyr effeithiol |
|---------|--|---|--|
|---------|--|---|--|

Uned 3: Y Sector Cyfryngau Creadigol

| | |
|-----------------------------------|-------------------------------|
| Côd yr Uned: | T/600/6469 |
| FfCC Lefel 2: | Tystysgrif Gyntaf BTEC |
| Gwerth credydau : | 5 |
| Oriau dysgu dan arweiniad: | 30 |

Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yw datblygu gwybodaeth dysgwyr ynghylch strwythur sector y cyfryngau creadigol, pa fathau o swyddi sydd ar gael, beth sydd ynghlwm wrth y swyddi hynny, a sut y gellid eu cael.

Cyflwyniad i'r Uned

Mae'n bwysig bod y rhai sy'n ystyried gweithio yn y cyfryngau creadigol yn deall strwythur y sector, pa fathau o swyddi sydd ar gael, beth sydd ynghlwm wrth y swyddi hynny, a sut y gellid eu cael.

Mae'r uned hon yn canolbwyntio ar ddatblygu dealltwriaeth dysgwyr o'r sector a sut mae wedi ei drefnu. Byddant yn dysgu sut mae'r sector cyfan wedi ei strwythuro, ac am strwythur cwmnïau unigol mewn diwydiant penodol o fewn y sector. Byddant yn datblygu dealltwriaeth o rolau swyddi penodol yn y diwydiant, y sgiliau y mae eu hangen i allu gwneud cais llwyddiannus am swydd, a sut caiff pobl eu recriwtio i'r rolau hyn.

Dylai dysgwyr weithio ar yr uned hon gan gyfeirio at y sector o'r cyfryngau creadigol (neu o bosib y diwydiannau) lle bydd eu gwaith cynhyrchu yn digwydd.

Canlyniadau dysgu

Ar ôl cwblhau'r uned hon dylai dysgwr:

- 1 Wybod sut mae sector y cyfryngau creadigol wedi ei strwythuro
- 2 Gwybod am rolau swyddi ac amodau cyflogaeth mewn diwydiant cyfryngau creadigol
- 3 Gwybod sut mae cael eu cyflogi mewn diwydiant cyfryngau creadigol.

Cynnwys yr Uned

1 Gwybod sut mae sector y cyfryngau creadigol wedi ei strwythuro

Sector: teledu; radio; y wasg; cyhoeddi; ffilm; cyfryngau rhyngweithiol; gemau cyfrifiadur; ffotograffiaeth a delweddu ffotograffig; hysbysebu a marchnata

Maint, siâp a strwythur: cwmpas daearyddol, e.e. amlwladol, cenedlaethol, lleol; statws, e.e. busnesau bach a chanolig, annibynnol, is-gwmnïau; strwythur, e.e. preifat, cyhoeddus, traws-gyfryngol

2 Gwybod am rolau swyddi ac amodau cyflogaeth mewn diwydiant cyfryngau creadigol

Rolau swyddi: e.e. technegol, creadigol, golygyddol, rheoli, gwerthu a marchnata, gweinyddu, ariannol

Arferion gwaith proffesiynol: codau ymarfer, e.e. canllawiau'r BBC, canllawiau hygyrchedd ar y we (W3C), codau ymddygiad y wasg, safonau hysbysebu; cyfyngiadau cyfreithiol, e.e. cyfraith enllib, Deddf Camddefnyddio Cyfrifiaduron, Deddf Gwahaniaethu ar sail Hil

Contractau, amodau a thâl: contractau, e.e. llawn amser parhaol, rhan amser parhaol, cyfnod penodol, ar eu liwt eu hun: patrymau gwaith, e.e. gwaith shifftiau, oriau swyddfa, oriau afreolaidd a gwrthgymdeithasol; tâl, e.e. cyflog, tâl yr awr, tâl cwblhau

3 Gwybod sut mae cael eu cyflogi mewn diwydiant cyfryngau creadigol

Sgiliau a chymwysterau: addysg a hyfforddiant, e.e. addysg lawn amser a rhan amser, hyfforddiant yn y swydd, datblygiad proffesiynol parhaus, hunan-hyfforddiant, Lefel 2, Lefel 3, graddedig, ôl-raddedig; ffynonellau gwybodaeth, e.e. Cynghorau Sgiliau Sector (Skillset, Sgiliau Creadigol a Diwylliannol, e-Sgiliau), undebau, gwasanaethau gyrfaoedd, cyhoeddiadau masnachol ac eraill

Sgiliau trosglwyddadwy: nodweddion personol, e.e. gwybodath a sgiliau, ymroddiad, effeithlonrwydd, dibynadwyedd, prydlondeb, hunan-gyflwyniad; sgiliau allweddol, e.e. rhif, cyfathrebu, gweithio gydag eraill, gwella eu perfformiad eu hun

Dulliau recriwtio: y wasg genedlaethol; y wasg fasnachol; y rhyngrwyd; clywed gan eraill; cysylltiadau personol; dyrchafiad mewnol

Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth a gyflwynir gan ddysgwyr i'w hasesu ddangos eu bod yn medru cyflawni'r holl ganlyniadau dysgu ar gyfer yr uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

| Meini prawf asesu a graddio | | |
|---|---|--|
| I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu: | I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu: | I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu: |
| LI1 amlinellu strwythur sector y cyfryngau creadigol | T1 disgrifio strwythur sector y cyfryngau creadigol gyda pheth manylder, a chan gyfeirio at enghreifftiau priodol ohono | Rh1 egluro strwythur sector y cyfryngau creadigol gan gyfeirio at enghreifftiau manwl gywir ohono |
| LI2 disgrifio rolau swyddi ac amodau cyflogaeth mewn diwydiant cyfryngau creadigol | T2 disgrifio rolau swyddi ac amodau cyflogaeth mewn diwydiant cyfryngau creadigol gyda pheth manylder a chan gyfeirio at enghreifftiau priodol ohonynt | Rh2 egluro rolau swyddi ac amodau cyflogaeth mewn diwydiant cyfryngau creadigol gan gyfeirio at enghreifftiau manwl gywir ohonynt |
| LI3 disgrifio sut mae cael eich cyflogi mewn diwydiant cyfryngau creadigol. | T3 disgrifio sut mae cael eich cyflogi mewn diwydiant cyfryngau creadigol gyda pheth manylder, a chan gyfeirio at enghreifftiau priodol o hynny. | Rh3 egluro sut mae cael eich cyflogi mewn diwydiant cyfryngau creadigol, gan gyfeirio at enghreifftiau manwl gywir o hynny. |

PLTS: Lle bo hynny'n berthnasol, mae'r crynodeb hwn yn cyfeirio, mewn cromfachau petryal, at elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol i'r meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i ddysgwyr ddangos eu bod yn cymhwyso'r elfennau y cyfeiriwyd atynt o'r sgiliau hynny yn effeithiol.

| | | | |
|----------------|--------------------------|------------------------|-----------------------------|
| Allwedd | YA - ymholwyr annibynnol | DA - dysgwyr adfyfyril | HR - hunanreolwyr |
| | MC - meddylwyr creadigol | GT - gweithwyr tîm | CE - cyfranogwyr effeithiol |

Uned 4: Cynulleidfaoedd a Chynnyrch y Cyfryngau

| | |
|-----------------------------------|-------------------------------|
| Côd yr Uned: | M/600/6471 |
| FfCC Lefel 2: | Tystysgrif Gyntaf BTEC |
| Gwerth credydau : | 5 |
| Oriau dysgu dan arweiniad: | 30 |

Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yw annog dysgwyr i feddwl am sut mae cynnyrch cyfryngau wedi cael eu llunio. Bydd dysgwyr yn datblygu eu dealltwriaeth o sut mae diwydiannau'r cyfryngau yn meddwl am eu cynulleidfaoedd, sut mae'r diwydiannau hynny'n creu cynnyrch ar gyfer cynulleidfaoedd penodol, a sut maent hwy eu hunain, fel aelodau o gynulleidfa, yn deall cynnyrch cyfryngau.

Cyflwyniad i'r Uned

Mae dealltwriaeth o sut mae'r cyfryngau yn targedu cynulleidfaoedd â chynnyrch penodol yn hanfodol i weithio'n effeithiol yn sector y cyfryngau creadigol. Mae'n dilyn, felly, y dylai dysgwyr allu nodi'r dulliau a ddefnyddir gan ddiwydiannau'r cyfryngau i dargedu cynulleidfaoedd penodol. Mae hefyd yn bwysig bod dysgwyr yn gallu meddwl yn feirniadol am sut mae cynulleidfaoedd yn deall cynnyrch y cyfryngau ac yn gwneud synnwyr ohonynt.

Mae'r uned hon yn canolbwyntio ar sut mae diwydiannau'r cyfryngau yn casglu gwybodaeth am eu cynulleidfaoedd ac yn eu categoreiddio, sut mae'r testunau y mae diwydiannau yn eu cynhyrchu yn cael eu llunio a'u cyfeirio at gynulleidfaoedd penodol, a sut mae'r cynulleidfaoedd hynny'n gwneud synnwyr o'r cynnyrch a gynigir iddynt.

Yn yr uned hon bydd dysgwyr hefyd yn dod yn gyfarwydd â'r iaith sylfaenol a'r cysyniadau allweddol sy'n hanfodol ar gyfer astudio'r cyfryngau a'u cynnyrch.

Gall dysgwyr weithio ar yr uned hon drwy gyfeirio at un diwydiant penodol yn sector y cyfryngau; yn ddelfrydol, yr un lle bydd eu gwaith cynhyrchu yn digwydd.

Canlyniadau dysgu

Ar ôl cwblhau'r uned hon dylai dysgwr:

- 1 Wybod sut mae diwydiant cyfryngau yn canfod cynulleidfaedd ar gyfer ei gynnyrch
- 2 Deall sut mae cynnyrch cyfryngau wedi eu llunio ar gyfer cynulleidfaedd penodol
- 3 Deall sut gall cynulleidfaedd ymateb i gynnyrch cyfryngau.

Cynnwys yr Uned

1 Gwybod sut mae diwydiant cyfryngau yn canfod cynulleidfaedd ar gyfer ei gynnyrch

Dosbarthiad cynulleidfaedd: e.e. Dosbarthiad Galwedigaethol Safonol (ABC1 ac ati), ffordd o fyw, neu seicograffeg; cod post neu geodemograffeg; oedran; rhyw; tueddfryd rhywiol

Ymchwil cynulleidfa: e.e. grwpiau ffocws, holiaduron, maint cynulleidfa (BARB), paneli pwyso a mesur y gynulleidfa, cyfweiliadau wyneb yn wyneb

2 Deall sut mae cynnyrch cyfryngau wedi eu llunio ar gyfer cynulleidfaedd penodol

Elfennau llunio: dethol; cyfansoddi; cyfuno

Dulliau o gyfarch: e.e. trwy'r cynnwys, trwy iaith, trwy genre, trwy naratif, trwy ddelweddau gweledol, trwy arddull graffeg

Yn ôl genre: e.e. ffilm ffuglen wyddonol, ffilm arswyd, comedi rhamantus, opera sebon ar y teledu, comedi sefyllfa ar y teledu, rhaglen ddogfen ar y teledu, teledu 'realaeth', papur newydd tabloid, papur newydd safonol, papur newydd lleol, papur newydd cenedlaethol, papur newydd am ddim, cylchgrawn ffordd o fyw, cylchgrawn arbenigol, comic, drama radio, rhaglen ddogfen radio, rhaglenni cerddoriaeth, comedi radio, gwefan newyddion, gwefan diwylliant cefnogwyr

Cyfyngiadau: codau ymarfer, e.e. canllawiau'r BBC, canllawiau hygyrchedd ar y we (W3C), codau ymddygiad y wasg, safonau hysbysebu; cyfyngiadau cyfreithiol, e.e. preifatrwydd, cyfraith enllib, difenwi, cyfraith gwahaniaethu ar sail hil, diogelu data, rhyddid gwybodaeth, hawlfraint

3 Deall sut gall cynulleidfaedd ymateb i gynnyrch cyfryngau

Rhesymau dros ffafrio: e.e. oedran, rhyw, cefndir ethnig, tueddfryd rhywiol

Codau iaith: e.e. geiriol, gweledol, clywedol

Codau generig: e.e. iaith, cynnwys, naratif, cymeriadau, arddull, gwaith camera, trac sain, cerddoriaeth, mise-en-scène, eiconograffeg, graffeg

Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth a gyflwynir gan ddysgwyr i'w hasesu ddangos eu bod yn medru cyflawni'r holl ganlyniadau dysgu ar gyfer yr uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

| Meini prawf asesu a graddio | | |
|--|---|---|
| I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu: | I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu: | I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu: |
| LI1 amlinellu sut mae diwydiant cyfryngau yn canfod cynulleidfaoedd ar gyfer ei gynnyrch [YA] | T1 disgrifio sut mae diwydiant cyfryngau yn canfod cynulleidfaoedd ar gyfer ei gynnyrch gyda pheth manylder a chan gyfeirio at enghreifftiau priodol o hynny | Rh1 egluro sut mae diwydiant cyfryngau yn canfod cynulleidfaoedd ar gyfer ei gynnyrch, gan gyfeirio at enghreifftiau manwl gywir o hynny |
| LI2 amlinellu sut mae cynnyrch cyfryngau wedi ei lunio ar gyfer cynulleidfa benodol [YA] | T2 disgrifio sut mae cynnyrch cyfryngau wedi ei lunio ar gyfer cynulleidfa benodol gyda pheth manylder, a chan gyfeirio at enghreifftiau priodol o hynny | Rh2 egluro sut mae cynnyrch cyfryngau wedi ei lunio ar gyfer cynulleidfa benodol, gan gyfeirio at enghreifftiau manwl gywir o hynny |
| LI3 amlinellu sut gallai cynnyrch cyfryngau gael ei ddeall gan gynulleidfa. [YA] | T3 disgrifio sut gallai cynnyrch cyfryngau gael ei ddeall gan gynulleidfa gyda pheth manylder, a chan gyfeirio at enghreifftiau priodol o hynny. | Rh3 egluro sut gallai cynnyrch cyfryngau gael ei ddeall gan gynulleidfaoedd, gan gyfeirio at enghreifftiau manwl gywir o hynny. |

PLTS: Lle bo hynny'n berthnasol, mae'r crynodeb hwn yn cyfeirio, mewn cromfachau petryal, at elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol i'r meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i ddysgwyr ddangos eu bod yn cymhwyso'r elfennau y cyfeiriwyd atynt o'r sgiliau hynny yn effeithiol.

| Allwedd | YA - ymholwyr annibynnol MC - meddylwyr creadigol | DA - dysgwyr adfyfyriol GT - gweithwyr tîm | HR - hunanreolwyr CE - cyfranogwyr effeithiol |
|---------|--|---|--|
| | | | |

Uned 5: Cynhyrchiad Fideo

| | |
|-----------------------------------|-------------------------------|
| Côd yr Uned: | H/600/6483 |
| FfCC Lefel 2: | Tystysgrif Gyntaf BTEC |
| Gwerth credydau : | 10 |
| Oriau dysgu dan arweiniad: | 60 |

Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yw rhoi cyfle i ddysgwyr greu cynhyrchiad fideo, ac mae'r uned hon yn canolbwyntio ar gymhwysu'r cyfnodau cynhyrchu – rhag-gynhyrchu, cynhyrchu ac ôl-gynhyrchu. Mae'r uned hefyd yn gofyn bod dysgwyr yn myfyrio ar y cynnyrch terfynol a'u harferion gwaith.

Cyflwyniad i'r Uned

Mae'r term 'cynhyrchiad fideo' yn cwmpasu amrywiaeth eang o weithgaredd cynhyrchu delweddu symudol, o un person yn gweithio'n annibynnol i'r prif gwmnïau teledu yn cynhyrchu adloniant yr oriau brig.

Mae'r uned hon yn cyflwyno technegau a thechnoleg gwaith cynhyrchu fideo i'r dysgwyr. Bydd dysgwyr yn datblygu dealltwriaeth o'r tri cham cynhyrchu - rhag-gynhyrchu, cynhyrchu ac ôl-gynhyrchu.

Bydd dysgwyr yn gweithio'n unigol ar y cam rhag-gynhyrchu, gan ddatblygu syniad i greu cynnig, a llunio sgript a bwrdd stori ar ei gyfer. Byddant hefyd yn cwblhau gweithgareddau eraill rhag-gynhyrchu ar eu pennau eu hunain, i sicrhau bod ganddynt ddealltwriaeth dda o'r broses hon.

Byddant yn gweithio fel rhan o dîm yn yr ail a'r trydydd cam i gwblhau cynnyrch fideo. Ar ôl cwblhau'r cynnyrch, bydd y dysgwyr yn adolygu eu cyfraniad at y broses gynhyrchu ac at ansawdd y cynnyrch.

Canlyniadau dysgu

Ar ôl cwblhau'r uned hon dylai dysgwr:

- 1 Allu gwneud y gwaith rhag-gynhyrchu ar gyfer cynnyrch fideo arfaethedig
- 2 Gallu cyfrannu'n dechnegol at greu cynnyrch fideo
- 3 Gallu gwneud y gwaith ôl-gynhyrchu ar gyfer cynnyrch fideo
- 4 Gallu adolygu eu gwaith eu hunain ar gynhyrchiad fideo.

Cynnwys yr Uned

1 Gallu gwneud y gwaith rhag-gynhyrchu ar gyfer cynnyrch fideo arfaethedig

Cynnig: syniadau; cynulleidfa; dogfen gynnig

Rhag-gynhyrchu: sgript; bwrdd stori; sgript saethu (y math o saethiad, hyd y saethiadau, deialog, cyfarwyddiadau, sain); y personél angenrheidiol; rolau'r criw; lleoliadau; caniatâd; cyllidebau; nodiadau o gyfarfodydd; trefnu bod cyfarpar ar gael; amserlenni; iechyd a diogelwch, e.e. asesiadau risg, ceblau trydan, codi a chario

2 Gallu cyfrannu'n dechnegol at greu cynnyrch fideo

Rolau cynhyrchu technegol: e.e. camera, goleuo, sain, cyfarwyddwr

Cyfraniad: e.e. gosod y camera, symudiad y camera, cydbwysedd gwyn, fframio, y math o saethiad, hyd y saethiad, gosod y goleuo (coch, melyn, sbotolau, gel), gosod meicroffon, lefelau sain, effeithiau sain (SFX), cyfarwyddo'r actorion, cyfarwyddo'r criw ffilmio

3 Gallu gwneud y gwaith ôl-gynhyrchu ar gyfer cynnyrch fideo

Ôl-gynhyrchu: labelu; storio; logio (hyd y saethiadau, disgrifiadau o'r saethiadau, sain, addasrwydd); rhestr o'r penderfyniadau golygu; technegau golygu, e.e. dilyniant, montage, ôl-fflachiadau; pontio, e.e. pylu, dileu, toddi; trac sain; fformat cyflwyno

4 Gallu adolygu eu gwaith eu hunain ar gynhyrchiad fideo

Cynnyrch gorffenedig: cymharu â'r cynnig gwreiddiol; priodoldeb ar gyfer y gynulleidfa; nodweddion technegol; nodweddion esthetig; cynnwys; arddull; cyfraniad y tîm

Y broses gynhyrchu: rhag-gynhyrchu; cynhyrchu; ôl-gynhyrchu; rheoli amser; cymwyseddau technegol; galluedd creadigol; gwaith tîm

Ffynonellau gwybodaeth: nodiadau o gyfarfodydd; drafftiau; log cynhyrchu (penderfyniadau creadigol, materion cynhyrchu, crynodeb o'r digwyddiadau); sylwadau gan eraill, e.e. y gynulleidfa, cymheiriaid, tiwtoriaid, y cleient

Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth a gyflwynir gan ddysgwyr i'w hasesu ddangos eu bod yn medru cyflawni'r holl ganlyniadau dysgu ar gyfer yr uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

| Meini prawf asesu a graddio | | |
|---|--|---|
| I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu: | I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu: | I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu: |
| LI1 defnyddio technegau rhag-gynhyrchu fideo wrth greu cynnyrch fideo | T1 arddangos gallu cymwys i ddefnyddio technegau rhag-gynhyrchu fideo wrth greu cynnyrch fideo | Rh1 arddangos gallu medrus i ddefnyddio technegau rhag-gynhyrchu fideo wrth greu cynnyrch fideo |
| LI2 ymgymryd â rôl dechnegol wrth greu cynnyrch fideo [GT] | T2 cyflawni rôl dechnegol yn gymwys wrth greu cynnyrch fideo | Rh2 cyflawni rôl dechnegol yn fedrus wrth greu cynnyrch fideo |
| LI3 defnyddio technegau ôl-gynhyrchu fideo wrth greu cynnyrch fideo [MC] | T3 arddangos gallu cymwys i ddefnyddio technegau ôl-gynhyrchu fideo wrth greu cynnyrch fideo | Rh3 arddangos gallu medrus i ddefnyddio technegau ôl-gynhyrchu fideo wrth greu cynnyrch fideo |
| LI4 Adolygu cryfderau a gwendidau eich gwaith cynhyrchu fideo eich hun. [DA] | T4 disgrifio cryfderau a gwendidau eich gwaith cynhyrchu fideo eich hun gyda pheth manylder a chan gyfeirio at enghreifftiau priodol o hynny. | Rh4 gwerthuso cryfderau a gwendidau eich gwaith cynhyrchu fideo eich hun, gan gyfeirio at enghreifftiau manwl gywir o hynny. |

PLTS: Lle bo hynny'n berthnasol, mae'r crynodeb hwn yn cyfeirio, mewn cromfachau petryal, at elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol i'r meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i ddysgwyr ddangos eu bod yn cymhwyso'r elfennau y cyfeiriwyd atynt o'r sgiliau hynny yn effeithiol.

| | | | |
|----------------|--------------------------|------------------------|-----------------------------|
| Allwedd | YA - ymholwyr annibynnol | DA - dysgwyr adfyfyril | HR - hunanreolwyr |
| | MC - meddylwyr creadigol | GT - gweithwyr tîm | CE - cyfranogwyr effeithiol |

Uned 6: Cynhyrchiad Sain

| | |
|-----------------------------------|-------------------------------|
| Côd yr Uned: | L/600/6509 |
| FfCC Lefel 2: | Tystysgrif Gyntaf BTEC |
| Gwerth credydau : | 10 |
| Oriau dysgu dan arweiniad: | 60 |

Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yw rhoi gwybodaeth i ddysgwyr am gynnyrch sain a ddarlledir ac na ddarlledir, a datblygu sgiliau craidd y diwydiant, sef creu cynnwys, technegau cynhyrchu ac ymwybyddiaeth o gynulleidfa sy'n gysylltiedig â chynhyrchiad sain.

Cyflwyniad i'r Uned

Mae'r term 'cynhyrchiad sain' yn cwmpasu amrywiaeth eang o weithgaredd cynhyrchu, o recordio tâp arddangos band lleol i raglenni drama radio megis opera sebon fwyaf hirhoedlog y byd, *The Archers*, sy'n cynnwys, heblaw am y staff technegol, tîm mawr o awduron sgriptiau, ymgynghorwyr ac actorion.

Mae datblygiad cyflym podledu a radio cymunedol wedi ailffocysu sylw ar gynhyrchu sain. Mae'r sgiliau gwaelodol a archwilir yn yr uned hon yn sail ar gyfer ystod eang o gynnyrch sain a llwyfannau, o radio daearol traddodiadol, i sain rhyngwrwyd ac mewn siopau, cynnwys gwefannau, rhaglenni dogfen a chynhyrchu dramâu.

Er bod llwyfannau ac allbynnau newydd yn cael eu datblygu'n barhaus, mae gofynion craidd sgiliau technegol a chynhyrchu cynnwys yn dal yn ganolog i'r diwydiant. Fodd bynnag, mae sgiliau cynhyrchu sain ar eu pen eu hunain yn gyfyngedig eu gwerth os na roddwyd dim neu fawr ddim sylw i ddisgwyliadau'r gynulleidfa. Yn yr uned hon bydd dysgwyr yn archwilio technegau a thechnoleg sylfaenol recordio sain. Bydd dysgwyr yn cynyddu eu dealltwriaeth o sut gellir trosglwyddo sgiliau cynhyrchu ar draws y diwydiant trwy ystyried amrywiaeth o gymwysiadau a ddarlledir ac na ddarlledir. Wrth greu eu cynnyrch sain eu hunain, bydd dysgwyr yn datblygu eu dealltwriaeth o gynhyrchu cynnwys ar gyfer cynulleidfaoedd penodol, a sgiliau technegol o ran recordio, golygu a chymysgu sain.

Canlyniadau dysgu

Ar ôl cwblhau'r uned hon dylai dysgwr:

- 1 Wybod am gynnyrch a fformatau sain a ddarlledir ac na ddarlledir
- 2 Gallu defnyddio technoleg sain i greu cynnyrch sain
- 3 Gallu adolygu eu gwaith eu hunain ar gynhyrchiad sain.

Cynnwys yr Uned

1 Gwybod am gynnyrch a fformatau sain a ddarllidir ac na ddarllidir

Darllidir: radio daearol; radio cymunedol; darlledu sain digidol (DAB); ffurf, e.e. byw, fel petai'n fyw, wedi'i recordio; genre, e.e. newyddion a pheccynnau nodwedd, rhaglennu cerddoriaeth a llafar, hysbysebion, drama, sylwebaeth, rhagflas

Ni ddarllidir: podlediadau; radio'r rhyngwyd; sain mewn siopau

Fformatau sain: CD; cerddoriaeth deledu; ffeiliau sain digidol, e.e. mp3, wav

2 Gallu defnyddio technoleg sain i greu cynnyrch sain

Technolegau recordio: meicroffonau; fformatau recordio a golygu, e.e. digidol, CD, disg caled, desgiau cymysgu; recordio mewn stiwdio, e.e. cynllun a gweithrediad y stiwdio, protocolau ar yr awyr ac oddi ar yr awyr; monitro lefelau;

Sefyllfaedd recordio: e.e. recordiadau byw, recordiadau fel petaent yn fyw, cyfweiliadau, sylwebaeth, darllediadau stiwdio ac awyr agored, awyrgylch, trac gwyllt, effeithiau, perfformiadau adloniant byw

Rhag-gynhyrchu: syniadau (fformat, cynnwys, arddull, cynulleidfa, hyd); sgript; amserlenni; cyllidebau; asesiadau risg

Cynhyrchu: e.e. recordio, gweithrediad y stiwdio, protocolau'r stiwdio, monitro lefelau;

Ôl-gynhyrchu: e.e. cymysgu, golygu, storio a labelu deunydd a olygwyd, protocolau stiwdio

3 Gallu adolygu eu gwaith eu hunain ar gynhyrchiad sain

Cynnyrch gorffenedig: cymharu â'r bwriadau gwreiddiol; nodweddion technegol (recordio, golygu; nodweddion esthetig)

Y broses gynhyrchu: cynhyrchu; (cymwyseddau technegol, gallu creadigol); ôl-gynhyrchu (cymwyseddau technegol, gallu creadigol)

Ffynonellau gwybodaeth: huanwerthuso; sylwadau gan eraill, e.e. y gynulleidfa, cymheiriaid, tiwtoriaid, y cleient

Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth a gyflwynir gan ddysgwyr i'w hasesu ddangos eu bod yn medru cyflawni'r holl ganlyniadau dysgu ar gyfer yr uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

| Meini prawf asesu a graddio | | |
|--|---|---|
| I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu: | I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu: | I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu: |
| LI1 amlinellu cynnyrch sain a ddarlledir ac na ddarlledir a'u fformatau | T1 disgrifio cynnyrch sain a ddarlledir ac na ddarlledir gyda pheth manylder a chan gyfeirio at enghreifftiau priodol ohonynt | Rh1 gwerthuso cynnyrch sain a ddarlledir ac na ddarlledir, gan gyfeirio at enghreifftiau manwl gywir ohonynt |
| LI2 defnyddio technoleg sain i greu cynnyrch sain sy'n gwireddu'r bwriadau'n rhannol [MC, HR] | T2 defnyddio technoleg sain yn gymwys i greu cynnyrch sain sy'n gwireddu'r bwriadau i raddau helaeth | Rh2 defnyddio technoleg sain yn fedrus i greu cynnyrch sain sy'n amlwg yn gwireddu'r bwriadau |
| LI3 adolygu cryfderau a gwendidau eich gwaith cynhyrchu sain eich hun. [DA] | T3 disgrifio cryfderau a gwendidau eich gwaith cynhyrchu sain eich hun gyda pheth manylder a chan gyfeirio at enghreifftiau priodol o hynny. | Rh3 gwerthuso cryfderau a gwendidau eich gwaith cynhyrchu sain eich hun, gan gyfeirio at enghreifftiau manwl gywir o hynny. |

PLTS: Lle bo hynny'n berthnasol, mae'r crynodeb hwn yn cyfeirio, mewn cromfachau petryal, at elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol i'r meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i ddysgwyr ddangos eu bod yn cymhwyso'r elfennau y cyfeiriwyd atynt o'r sgiliau hynny yn effeithiol.

| Allwedd | YA - ymholwyr annibynnol MC - meddylwyr creadigol | DA - dysgwyr adfyfyriol GT - gweithwyr tîm | HR - hunanreolwyr CE - cyfranogwyr effeithiol |
|---------|--|---|--|
|---------|--|---|--|

Uned 7: Cynhyrchiad Printiedig

| | |
|-----------------------------------|-------------------------------|
| Côd yr Uned: | J/600/6511 |
| FfCC Lefel 2: | Tystysgrif Gyntaf BTEC |
| Gwerth credydau : | 10 |
| Oriau dysgu dan arweiniad: | 60 |

Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yw datblygu dealltwriaeth y dysgwyr o dechnegau a thechnoleg cynhyrchu print. Cyflwynir y dysgwyr i ffyrdd o ddatblygu syniadau ar gyfer cynnyrch print, a byddant yn archwilio dulliau o gynhyrchu print â llaw, yn fecanyddol, ac yn ddigidol, ac yn eu hymarfer.

Cyflwyniad i'r Uned

Y diwydiant argraffu yw un o ddiwydiannau mwyaf y Deyrnas Unedig, gyda throsiant blynyddol o dros £14 biliwn, a mwy na 17,000 o gwmnïau argraffu yn gwasanaethu amrywiaeth aruthrol o ddiwydiannau eraill. Cwmnïau bychain yw'r rhain yn bennaf, yn cyflogi llai nag 20 o bobl; dim ond rhyw 500 o gwmnïau sydd â mwy na 50 yn eu gweithlu.

Mae'r cynnyrch y mae argraffwyr yn eu trafod yn amrywio'n aruthrol - llyfrau, papurau newydd, cylchgronau, delweddu celfyddyd gain, cartonau a pheynnau arall, deunydd cyhoeddusrwydd ac ati. Gwneir y rhan fwyaf o'r gwaith ar beiriannau hynod soffistigedig, ond mae lle o hyd i'r argraffwr crefftus sy'n defnyddio technolegau traddodiadol.

Trwy ddilyn yr uned hon bydd dysgwyr yn datblygu eu dealltwriaeth o dechnegau a thechnoleg cynhyrchu print trwy archwilio dulliau o gynhyrchu print â llaw, yn fecanyddol ac yn ddigidol, gan ddysgu am fanteision ac anfanteision pob un o'r dulliau hynny. Wedyn byddant yn creu cynnyrch printiedig gan ddefnyddio technoleg a thechnegau cynhyrchu print analog a digidol.

Canlyniadau dysgu

Ar ôl cwblhau'r uned hon dylai dysgwr:

- 1 Wybod am dechnolegau a thechnegau cynhyrchu print
- 2 Gallu datblygu syniadau ar gyfer deunydd printiedig
- 3 Gallu creu cynnyrch printiedig
- 4 Gallu adolygu eu gwaith eu hunain ar gynhyrchiad printiedig.

Cynnwys yr Uned

1 Gwybod am dechnolegau a thechnegau cynhyrchu print

Technegau a thechnolegau: â llaw, e.e. ysgythru, torlun leino, sgrîn-brintio, torlun pren, lithograffeg; mecanyddol, e.e. llythrenwasg, grafur, proses sgrîn; digidol, e.e. llungopiö, argraffu laser, chwistrell inc, cyhoeddi pen desg

Manteision ac anfanteision: y sgiliau a'r wybodaeth y mae eu hangen; y costau; cyflymdra; ystyriaethau esthetig; ystyriaethau technegol

2 Gallu datblygu syniadau ar gyfer deunydd printiedig

Cynhyrchu syniadau: dulliau, e.e. tasgu syniadau, trafodaeth grŵp, arfer masnachol yn awr ac yn y gorffennol; technoleg, e.e. llaw, mecanyddol, digidol; gofynion, e.e. anghenion y cleient, cyfyngiadau technegol, costau, cynulleidfa neu farchnad

Tarddiad dyluniadau: taflenni syniadau; brasluniau bawd; lluniadau cysyniadol; drafftiau bras

Ystyriaethau: costau; yr adnoddau sydd ar gael; nifer; materion cyfreithiol a moesegol

3 Gallu creu cynnyrch printiedig

Cynhyrchu: technoleg, e.e. llaw, mecanyddol, digidol; profleenni; fersiynau terfynol; rheoli'r cynhyrchu

Cynnyrch: e.e. papurau newydd, cylchgronau, poster, taflenni, dalennau hysbysebu, llyfrynnau, labeli, pecynnu

4 Gallu adolygu eu gwaith eu hunain ar gynhyrchiad printiedig

Cynnyrch gorffenedig: cymharu â'r bwriadau gwreiddiol; nodweddion technegol; nodweddion esthetig; addasrwydd ar gyfer y gynulleidfa neu'r farchnad

Y broses gynhyrchu: rheoli'r cynhyrchu; sgiliau technegol; datblygiad creadigol;

Ffynonellau gwybodaeth: huanwerthuso; logiau cynhyrchu; sylwadau gan eraill, e.e. y gynulleidfa, cymheiriaid, tiwtoriaid, y cleient

Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth a gyflwynir gan ddysgwyr i'w hasesu ddangos eu bod yn medru cyflawni'r holl ganlyniadau dysgu ar gyfer yr uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

| Meini prawf asesu a graddio | | |
|---|--|---|
| I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu: | I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu: | I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu: |
| LI1 amlinellu'r technolegau a'r technegau cynhyrchu print a ddefnyddir yn y diwydiant | T1 disgrifio technolegau a thechnegau argraffu gyda pheth manylder, a chan gyfeirio at enghreifftiau priodol ohonynt | Rh1 egluro technolegau a thechnegau argraffu, gan gyfeirio at enghreifftiau manwl ohonynt |
| LI2 cyflwyno syniad ar gyfer deunydd printiedig sy'n defnyddio technoleg briodol [MC] | T2 cyflwyno syniad a ddatblygwyd ar gyfer deunydd printiedig sy'n defnyddio technoleg briodol | Rh2 cyflwyno syniad llawn dychymyg ar gyfer deunydd printiedig sy'n defnyddio technoleg briodol |
| LI3 defnyddio technoleg a thechnegau argraffu i greu cynnyrch printiedig sy'n gwireddu'r bwriadau'n rhannol [HR, GT] | T3 defnyddio technoleg a thechnegau argraffu yn gymwys i greu cynnyrch printiedig sy'n gwireddu'r bwriadau i raddau helaeth | Rh3 defnyddio technoleg a thechnegau argraffu yn fedrus i greu cynnyrch printiedig sy'n amlwg yn gwireddu'r bwriadau |
| LI4 adolygu cryfderau a gwendidau eich gwaith cynhyrchu print eich hun. [DA] | T4 disgrifio cryfderau a gwendidau eich gwaith cynhyrchu print eich hun gyda pheth manylder a chan gyfeirio at enghreifftiau priodol o hynny. | Rh4 gwerthuso cryfderau a gwendidau eich gwaith cynhyrchu print eich hun, gan gyfeirio at enghreifftiau manwl gywir o hynny. |

PLTS: Lle bo hynny'n berthnasol, mae'r crynodeb hwn yn cyfeirio, mewn cromfachau petryal, at elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol i'r meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i ddysgwyr ddangos eu bod yn cymhwyso'r elfennau y cyfeiriwyd atynt o'r sgiliau hynny yn effeithiol.

| Allwedd | YA - ymholwyr annibynnol | DA - dysgwyr adfyfyriol | HR - hunanreolwyr |
|---------|--------------------------|-------------------------|-----------------------------|
| | MC - meddylwyr creadigol | GT - gweithwyr tîm | CE - cyfranogwyr effeithiol |

Uned 8: Cynhyrchiad Cyfryngau Rhyngweithiol

| | |
|-----------------------------------|-------------------------------|
| Côd yr Uned: | Y/600/6514 |
| FfCC Lefel 2: | Tystysgrif Gyntaf BTEC |
| Gwerth credydau : | 10 |
| Oriau dysgu dan arweiniad: | 60 |

Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yw galluogi dysgwyr i gaffael gwybodaeth am ddibenion cyfryngau rhyngweithiol a sut creir cynnyrch cyfryngau rhyngweithiol. Bydd y dysgwyr yn cyflawni hyn trwy astudio cynnyrch cyfryngau rhyngweithiol, trwy gynllunio a chynhyrchu cyflwyniad cyfryngau rhyngweithiol, a thrwy fyfyrir ar eu gwaith.

Cyflwyniad i'r Uned

Mae'r diwydiant cyfryngau rhyngweithiol yn anferth ac yn tyfu'n feunyddiol. Mae datblygiad technoleg newydd a thwf y rhyngwrwyd wedi creu llawer o gyfleoedd ar gyfer gweithwyr proffesiynol yn y cyfryngau rhyngweithiol.

Bob dydd rydym yn defnyddio ystod eang o gynnyrch rhyngweithiol yn ein gwaith neu yn ein chwarae. Mae bod yn rhyngweithiol yn allweddol i lwyddiant cynnyrch amlygyfrwng, boed hynny yn fformat DVD, ciosg sgrîn-cyffwrdd, neu deledu rhyngweithiol. Mae angen i bobl sy'n ymuno â'r diwydiant hwn feddu ar ymwybyddiaeth sylfaenol o sut mae cynnyrch cyfryngau rhyngweithiol wedi cael eu dylunio a'u datblygu.

Ar y lefel hon mae'n bwysig bod gan y rhai sy'n ystyried gyrfa yn y diwydiant cyfryngau rhyngweithiol werthfawrogiad sylfaenol o sut defnyddir caledwedd a meddalwedd awduro i gynhyrchu cynnyrch cyfryngau rhyngweithiol. Rhaid iddynt fod yn ymwybodol o gyfyngiadau posib llwyfannau targed a'r hyn y gallant ei gyflawni. Dylent brofi defnydd effeithiol o offer datblygu cyfryngau rhyngweithiol er mwyn cynhyrchu cynnyrch cyfryngau rhyngweithiol sylfaenol.

Bydd yr uned hon yn galluogi'r dysgwyr i archwilio technegau sy'n gysylltiedig â chynhyrchu cynnyrch cyfryngau rhyngweithiol. Mae hyn yn cynnwys defnyddio meddalwedd awduro ac integreiddio deunydd sain a gweledol yn greadigol i greu cynnyrch terfynol. Mae'n hanfodol bod y cynnyrch yn canolbwyntio ar anghenion y defnyddiwr. Mae dyluniad a chynllun y sgrîn yn bwysig, ond mae'n rhaid i'r cynnyrch cyfryngau rhyngweithiol terfynol gweithredol a greir ar gyfer yr uned hon

fod yn hawdd ei ddefnyddio ac yn hawdd ei ddeall.

Canlyniadau dysgu

Ar ôl cwblhau'r uned hon dylai dysgwr:

- 1 Wybod am elfennau cynhyrchu cyfryngau rhyngweithiol
- 2 Gallu datblygu syniadau ar gyfer cynnyrch cyfryngau rhyngweithiol
- 3 Gallu creu cynnyrch cyfryngau rhyngweithiol
- 4 Gallu adolygu eu gwaith eu hunain ar gynhyrchiad cyfryngau rhyngweithiol.

Cynnwys yr Uned

1 Gwybod am elfennau cynhyrchu cyfryngau rhyngweithiol

Llwyfannau: CD/DVD ROM; ciosgau gwybodaeth; teledu rhyngweithiol; y we fyd-eang; dyfeisiau llaw, e.e. ffonau symudol, cynorthwywyr personol digidol (PDAs)

Meddalwedd: e.e. Director, Flash

Asedau: sain; testun; fideo; graffeg; animeiddiadau; cynnwys 3D

Cyfyngiadau: maint; amser lawrlwytho; y math o gynnwys; yr angen am ategion

2 Gallu datblygu syniadau ar gyfer cynnyrch cyfryngau rhyngweithiol

Fformat: e.e. cyflwyniad electronig, CD/DVD

Cymhwysiad: e.e. addysg, gwybodaeth, adloniant, gwerthiant

Datblygu syniadau: byrddau hwyliau; dylanwad arfer y presennol a'r gorffennol; tasgu syniadau; diben; cynulleidfa; arddull

3 Gallu creu cynnyrch cyfryngau rhyngweithiol

Datblygiad: byrddau stori; diagramau cynllun; sgript; amserlenni cynhyrchu; cynnig

Asedau: sain; testun; fideo; graffeg; animeiddiadau; cynnwys 3D; goblygiadau cyfreithiol a moesegol mewnfario asedau o ffynonellau eilaidd;

Cynhyrchu: sgrîn; rhyngweithio; llywio; dulliau rheoli; graffeg; cynllun; lliw

Cyhoeddi: e.e. ar gyfer cyflwyniad electronig, CD/DVD, y we

4 Gallu adolygu eu gwaith eu hunain ar gynhyrchiad cyfryngau rhyngweithiol

Cynnyrch gorffenedig: cymharu â'r bwriadau gwreiddiol; nodweddion technegol; nodweddion esthetig

Y broses gynhyrchu: cymwyseddau technegol; galluedd creadigol; rheoli amser

Ffynonellau gwybodaeth: huanwerthuso; sylwadau gan eraill, e.e. y gynulleidfa, cymheiriaid, tiwtoriaid, y cleient; dogfennaeth gynhyrchu, e.e. nodiadau, cofnodion cyfarfod, dyddiaduron cynhyrchu

Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth a gyflwynir gan ddysgwyr i'w hasesu ddangos eu bod yn medru cyflawni'r holl ganlyniadau dysgu ar gyfer yr uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

| Meini prawf asesu a graddio | | |
|--|--|---|
| I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu: | I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu: | I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu: |
| LI1 amlinellu elfennau cynhyrchu cyfryngau rhyngweithiol | T1 disgrifio elfennau cynhyrchu cyfryngau creadigol gyda pheth manylder, a chan gyfeirio at enghreifftiau priodol ohonynt | Rh1 egluro elfennau cynhyrchu cyfryngau creadigol gan gyfeirio at enghreifftiau manwl gywir ohonynt |
| LI2 cyflwyno syniadau ar gyfer cynnyrch cyfryngau rhyngweithiol gan gyfeirio at fformat a chymhwysiad [YA, MC] | T2 cyflwyno syniadau a ddatblygwyd ar gyfer cynnyrch cyfryngau rhyngweithiol gan gyfeirio at fformat a chymhwysiad | Rh2 cyflwyno syniadau llawn dychymyg ar gyfer cynnyrch cyfryngau rhyngweithiol gan gyfeirio at fformat a chymhwysiad |
| LI3 defnyddio technoleg cyfryngau rhyngweithiol i greu cynnyrch cyfryngau rhyngweithiol sy'n gwireddu'r bwriadau'n rhannol [HR] | T3 defnyddio technoleg cyfryngau rhyngweithiol yn gymwys i greu cynnyrch cyfryngau rhyngweithiol sy'n gwireddu'r bwriadau i raddau helaeth | Rh3 defnyddio technoleg cyfryngau rhyngweithiol yn fedrus i greu cynnyrch cyfryngau rhyngweithiol sy'n amlwg yn gwireddu'r bwriadau |
| LI4 adolygu cryfderau a gwendidau eich gwaith cyfryngau rhyngweithiol eich hun. [DA] | T4 disgrifio cryfderau a gwendidau eich gwaith cyfryngau rhyngweithiol eich hun gyda pheth manylder a chan gyfeirio at enghreifftiau priodol o hynny. | Rh4 gwerthuso cryfderau a gwendidau eich gwaith cyfryngau rhyngweithiol eich hun, gan gyfeirio at enghreifftiau manwl gywir o hynny. |

PLTS: Lle bo hynny'n berthnasol, mae'r crynodeb hwn yn cyfeirio, mewn cromfachau petryal, at elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol i'r meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i ddysgwyr ddangos eu bod yn cymhwyso'r elfennau y cyfeiriwyd atynt o'r sgiliau hynny yn effeithiol.

| | | | |
|----------------|--------------------------|-------------------------|-----------------------------|
| Allwedd | YA - ymholwyr annibynnol | DA - dysgwyr adfyfyrion | HR - hunanreolwyr |
| | MC - meddylwyr creadigol | GT - gweithwyr tîm | CE - cyfranogwyr effeithiol |

Uned 9: Technegau Ffotograffiaeth

| | |
|-----------------------------------|-------------------------------|
| Côd yr Uned: | K/600/6517 |
| FfCC Lefel 2: | Tystysgrif Gyntaf BTEC |
| Gwerth credydau : | 10 |
| Oriau dysgu dan arweiniad: | 60 |

Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yw datblygu sgiliau ffotograffeg dysgwyr. Mae'r uned yn cwmpasu cynhyrchu syniadau ar gyfer delweddau ffotograffig, cynhyrchu delweddau a chynhyrchu printiau terfynol. Bydd dysgwyr hefyd yn archwilio arfer ffotograffig y presennol a'r gorffennol, gan gynnwys technegau ac arddulliau, er mwyn bwydo i'w gwaith ffotograffig eu hunain.

Cyflwyniad i'r Uned

Mae gan ffotograffiaeth - sy'n rhan o'r sector ffoto-ddelweddu - ystod eang o gymwysadau yn y sector cyfryngau creadigol, yn cynnwys ffoto-newyddiaduraeth, hysbysebu, ffotograffiaeth ffasiwn, ffotograffiaeth bwyd, a ffotograffiaeth lluniau llonydd ar gyfer ffilm a theledu. Mae hefyd yn bodoli y tu hwnt i'r hyn a ddiffinnid yn fanwl gywir fel y sector cyfryngau creadigol mewn proffesiynau megis ffotograffydd stryd fawr (a allai dynnu lluniau priodas a phortreadau o deuluoedd), ffotograffwyr meddygol, diwydiannol a phensaernïol.

Bydd yr uned hon yn galluogi dysgwyr i archwilio a datblygu eu dealltwriaeth o'r technegau, y cyfarpar a'r deunyddiau a ddefnyddir i gynhyrchu ffotograffau. Bydd y dysgwyr yn archwilio dulliau ffotograffig sy'n defnyddio ffilm a'r prosesau sydd ynghlwm wrth ffotograffiaeth ddigidol. Byddant yn edrych ar arfer hanesyddol a chyfoes ac yn datblygu syniadau ar gyfer eu gwaith ffotograffig eu hunain, gan greu amrywiaeth o ddelweddau ffotograffig.

Canlyniadau dysgu

Ar ôl cwblhau'r uned hon dylai dysgwr:

- 1 Allu cynhyrchu syniadau ar gyfer delweddau ffotograffig, ar sail gwybodaeth am arfer ffotograffig
- 2 Gallu defnyddio technoleg ffotograffig i greu delweddau ffotograffig
- 3 Gallu adolygu eu gwaith ffotograffiaeth eu hunain.

Cynnwys yr Uned

1 Gallu cynhyrchu syniadau ar gyfer delweddau ffotograffig, ar sail gwybodaeth am arfer ffotograffig

Cynhyrchu syniadau: meddwl yn greadigol, e.e. tasgu syniadau, trafodaeth grŵp, ymarferion datblygu; syniadau cofnodi, e.e. nodiadau, brasluniau, collage, lluniau arbrofol; cyfyngiadau, e.e. adnoddau, amser, costau

Arfer ffotograffig: arfer yn y gorffennol; arfer cyfoes; ffurfiau, e.e. y wasg, dogfennol, portreadau, hysbysebu, ffasiwn, stiwdio, ar leoliad, oriel; technegau, e.e. y goleuo sydd ar gael, goleuo artiffisial, ystumiau arbennig, cipluniau, ffocws gwahaniaethol, manipwleiddio graen, manipwleiddio'r ystod tonaid, manipwleiddio lliw, masgio, collage; arddulliau, e.e. reportage, dull arlunydd, pync, swreal, arbrofol

2 Gallu defnyddio technoleg ffotograffig i greu delweddau ffotograffig

Cyfarpar ffotograffig: camera; treipod; goleuadau artiffisial, e.e. flach, llifoleuadau, sbotoleuadau, tryledwyr

Technoleg ffotograffig: ffilm (camera ffilm, yr agorfa a chyflymdra'r caead, stoc ffilm, papur printio, cyfarpar prosesu a phrintio ffilm, cemegau ar gyfer prosesu a phrintio); digidol (camera digidol, swyddogaethau camera, sglodion cof, cyfrifiadur, meddalwedd manipwleiddio delweddau, sganiwr, argraffwyr, papur printio)

Cynllunio: e.e. amserlen tynnu lluniau, llogi stiwdio, llogi cyfarpar, lleoliadau, modelau

Ansawdd y delweddau: technegol, e.e. miniogrwydd, dyfnder ffocws, rheoli aneglurder, dadleniad, cyferbyniad, dirlawnder lliw, effeithiau goleuo; esthetig, e.e. cyfansoddiad; safbwynt, effaith

Cyflwyno'r printiau terfynol: deunyddiau mowntio a gorffen; mowntiad arddangos; mowntiad portffolio; teitlo

Iechyd a diogelwch: e.e. defnyddio cyfarpar trydanol, trafod cemegau, protocolau ystafell dywyll, gweithio ar sgriniau cyfrifiadur

3 Gallu adolygu eu gwaith ffotograffiaeth eu hunain

Cynnrych gorffenedig: gwireddu bwriadau; nodweddion technegol; nodweddion esthetig

Y broses gynhyrchu: cymwyseddau technegol; gallu creadigol; rheoli amser

Ffynonellau gwybodaeth: hunanwerthuso; dogfennaeth, e.e. nodiadau am syniadau, brasluniau, lluniau arbrofol, nodiadau ar ffotograffwyr proffesiynol; sylwadau gan eraill, e.e. y gynulleidfa, cymheiriaid, tiwtoriaid, y cleient

Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth a gyflwynir gan ddysgwyr i'w hasesu ddangos eu bod yn medru cyflawni'r holl ganlyniadau dysgu ar gyfer yr uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

| Meini prawf asesu a graddio | | |
|---|---|---|
| I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu: | I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu: | I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu: |
| LI1 cyflwyno syniad ar gyfer delweddau ffotograffig sy'n dangos rhyw berthynas ag arfer ffotograffig [YA, MC] | T1 cyflwyno syniad a ddatblygwyd ar gyfer delweddau ffotograffig sy'n dangos dealltwriaeth o arfer ffotograffig | Rh1 cyflwyno syniad llawn dychymyg ar gyfer delweddau ffotograffig sy'n amlwg yn deillio o ddealltwriaeth dda o arfer ffotograffig |
| LI2 defnyddio technoleg ffotograffig i greu ffotograffau sy'n gwireddu'r bwriadau'n rhannol [HR] | T2 defnyddio technoleg ffotograffig yn gymwys i greu ffotograffau sy'n gwireddu'r bwriadau i raddau helaeth | Rh2 defnyddio technoleg ffotograffig yn fedrus i greu ffotograffau sy'n amlwg yn cyflawni'r bwriadau |
| LI3 adolygu cryfderau a gwendidau eich gwaith ffotograffig eich hun. [DA] | T3 disgrifio cryfderau a gwendidau eich gwaith ffotograffig eich hun gyda pheth manylder a chan gyfeirio at enghreifftiau priodol o hynny. | Rh3 gwerthuso cryfderau a gwendidau eich gwaith ffotograffig eich hun, gan gyfeirio at enghreifftiau manwl gywir o hynny. |

PLTS: Lle bo hynny'n berthnasol, mae'r crynodeb hwn yn cyfeirio, mewn cromfachau petryal, at elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol i'r meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i ddysgwyr ddangos eu bod yn cymhwyso'r elfennau y cyfeiriwyd atynt o'r sgiliau hynny yn effeithiol.

| | | | |
|----------------|--------------------------|------------------------|-----------------------------|
| Allwedd | YA - ymholwyr annibynnol | DA - dysgwyr adfyfyril | HR - hunanreolwyr |
| | MC - meddylwyr creadigol | GT - gweithwyr tîm | CE - cyfranogwyr effeithiol |

Uned 10: Technegau Animeiddio

| | |
|-----------------------------------|-------------------------------|
| Côd yr Uned: | M/600/6521 |
| FfCC Lefel 2: | Tystysgrif Gyntaf BTEC |
| Gwerth credydau : | 10 |
| Oriau dysgu dan arweiniad: | 60 |

Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yw cyflwyno'r dysgwyr i brosesau ymarferol animeiddio a'u galluogi i ddatblygu dealltwriaeth o dechnegau animeiddio hanesyddol a chyfoes. Bydd y dysgwyr yn gweithio ar ddylunio, cymeriad, cyd-destun a naratif, ac yna'n canolbwyntio ar dechneg benodol er mwyn cynhyrchu dilyniant animeiddio.

Cyflwyniad i'r Uned

Mae cynhyrchu animeiddio yn weithgaredd pwysig yn sector cyfryngau creadigol, nid yn unig mewn rhaglenni teledu proffil uchel fel *Wallace and Gromit*, ond hefyd mewn ffilmiau nodwedd, cynnwys ffonau symudol, ar y rhyngwyd, mewn hysbysebion teledu ac yn y diwydiant gemau cyfrifiadur. Er bod lle o hyd i'r technegau 'crefft' traddodiadol megis animeiddio 'cel', mae animeiddio cyfrifiadurol a chymorthedig yn cael ei ddefnyddio'n gynyddol, a hynny mewn ffyrdd sy'n caniatáu bod yn greadigol lawn cymaint â'r dulliau traddodiadol.

Bydd y dysgwyr yn ymchwilio'r technegau cynhyrchu a'r cynnwys a ddefnyddiwyd mewn enghreifftiau hanesyddol a chyfoes o waith. Bydd y dysgwyr yn datblygu dealltwriaeth o faterion megis darlunio parhaus, cyflymder fframiau, technegau atal fframiau, a chynhyrchu celloedd. Bydd y cefndir hwn yn hysbysu cynllunio a chynhyrchu gwaith gan ddefnyddio un o'r dulliau traddodiadol neu gymhwysiad digidol ar gyfer animeiddio ac yn darparu sail ar gyfer archwilio ac arbrofi gyda thechnegau animeiddio a chynnwys.

Mae gyrfa lwyddiannus ym maes animeiddio yn galw am ymwybyddiaeth weledol dda a sylw i fanylion. Mae gofyn bod gennych y gallu i ddatblygu syniadau ffres ar gyfer cynnwys a fydd yn ennyn diddordeb y gynulleidfa dan sylw. Bydd animeiddiwr da yn rhoi sylw i rôl gyfathrebu animeiddio ym mhob cam o'r broses, boed hynny er mwyn rhoi adloniant neu wybodaeth. Dylai'r dysgwyr bob amser geisio mynd y tu hwnt i greu siapau sy'n symud ar sgrîn.

Canlyniadau dysgu

Ar ôl cwblhau'r uned hon dylai dysgwr:

- 1 Wybod am dechnegau animeiddio
- 2 Gallu datblygu syniadau ar gyfer dilyniant animeiddio
- 3 Gallu creu dilyniant animeiddio
- 4 Gallu adolygu eu cynhyrchiad animeiddio eu hunain.

Cynnwys yr Uned

1 Gwybod am dechnegau animeiddio

Technegau: soetrop; cinetiscop; llyfr fflicio; animeiddio 'cel'; rotosegop; lluniadu ar ffilm; cymwysiadau digidol; lluniau llonydd ffotograffig; animeiddio clai; atal fframiau

Animeiddio dylanwadol: e.e. Walt Disney, Hanna Barbera, Warner Bros, Norman McLaren, Len Lye, Aardman Animations

Defnyddiau cyfoes: e.e. fideos cerddoriaeth, hysbysebu, rhaglenni teledu, gemau cyfrifiadur, ffonau symudol, y rhyngwrdd

2 Gallu datblygu syniadau ar gyfer dilyniant animeiddio

Ystyriaethau: cynulleidfa; techneg; arddull, e.e. uniongyrchol, doniol, dychanol, ffantasi, anime

Genres: e.e. i blant, fideo cerddoriaeth, hysbyseb

Cynhyrchu syniadau: darluniad; cymeriadau; cefndiroedd; storiâu sylfaenol; sain; gweithio oddi mewn i gyfyngiadau technegol

Datblygu syniadau: dyluniadau; darluniadau; llunio byrddau stori; ystyried symudiadau; dilyniant; fframiau yr eiliad; persbectif; dylunio trac sain; safbwynt, e.e. newidiadau neu hyd a lled gweithred neu symudiad

3 Gallu creu dilyniant animeiddio

Rhag-gynhyrchu: e.e. sgriptiau, brasluniau, modelau, deunyddiau, bwrdd stori, set, cerddoriaeth, effeithiau sain

Cynhyrchu: e.e. creu modelau, adeiladu set, drafftio, cynllun, safbwynt, fframiau allweddol, ysgrifennu testun, recordio sain, ffilmio

Ôl-gynhyrchu: e.e. golygu (torri, pontio, amseru, rhifau fframiau), effeithiau arbennig, cymysgu sain, golygu'r trac sain, cydamseru'r trac sain

4 Gallu adolygu eu cynhyrchiad animeiddio eu hunain

Cynnyrch gorffenedig: cymharu â'r bwriadau gwreiddiol; priodoldeb ar gyfer y gynulleidfa; nodweddion technegol; nodweddion esthetig; cynnwys; arddull

Y broses gynhyrchu: rhag-gynhyrchu, e.e. ymchwil, cynllunio; cynhyrchu, e.e. rheoli amser, rheoli'r prosiect, cymwyseddau technegol, gallu creadigol, eich gwaith eich hun, gwaith tîm; ôl-gynhyrchu, e.e. rheoli amser, rheoli'r prosiect, cymwyseddau technegol, gallu creadigol, eich gwaith eich hun, gwaith tîm

Ffynonellau gwybodaeth: huanwerthuso; dogfennaeth, e.e. nodiadau, brasluniau, byrddau stori, logiau cynhyrchu; sylwadau gan eraill, e.e. y gynulleidfa, cymheiriaid, tiwtoriaid, y cleient

Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth a gyflwynir gan ddysgwyr i'w hasesu ddangos eu bod yn medru cyflawni'r holl ganlyniadau dysgu ar gyfer yr uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

| Meini prawf asesu a graddio | | |
|---|---|--|
| I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu: | I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu: | I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu: |
| LI1 amlinellu'r technegau a ddefnyddir wrth animeiddio | T1 disgrifio'r technegau a ddefnyddir wrth animeiddio gyda pheth manylder, a chan gyfeirio at enghreifftiau priodol ohonynt | Rh1 gwerthuso'r technegau a ddefnyddir wrth animeiddio gan gyfeirio at enghreifftiau manwl gywir ohonynt |
| LI2 cyflwyno syniad ar gyfer dilyniant animeiddio [MC] | T2 cyflwyno syniad a ddatblygwyd ar gyfer dilyniant animeiddio | Rh2 cyflwyno syniad llawn dychymyg ar gyfer dilyniant animeiddio |
| LI3 defnyddio technegau animeiddio i greu dilyniant animeiddio sy'n gwireddu'r bwriadau'n rhannol [HR] | T3 defnyddio technegau animeiddio yn gymwys i greu dilyniant animeiddio sy'n gwireddu'r bwriadau i raddau helaeth | Rh3 defnyddio technegau animeiddio yn fedrus i greu dilyniant animeiddio sy'n amlwg yn gwireddu'r bwriadau |
| LI4 adolygu cryfderau a gwendidau eich gwaith cynhyrchu animeiddio eich hun. [DA] | T4 disgrifio cryfderau a gwendidau eich gwaith cynhyrchu animeiddio eich hun gyda pheth manylder a chan gyfeirio at enghreifftiau priodol o hynny. | Rh4 gwerthuso cryfderau a gwendidau eich gwaith cynhyrchu animeiddio eich hun, gan gyfeirio at enghreifftiau manwl gywir o hynny. |

PLTS: Lle bo hynny'n berthnasol, mae'r crynodeb hwn yn cyfeirio, mewn cromfachau petryal, at elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol i'r meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i ddysgwyr ddangos eu bod yn cymhwyso'r elfennau y cyfeiriwyd atynt o'r sgiliau hynny yn effeithiol.

| Allwedd | YA - ymholwyr annibynnol MC - meddylwyr creadigol | DA - dysgwyr adfyfyriol GT - gweithwyr tîm | HR - hunanreolwyr CE - cyfranogwyr effeithiol |
|---------|--|---|--|
| | | | |

Uned 11: Awduro ar y We

| | |
|-----------------------------------|-------------------------------|
| Côd yr Uned: | F/600/6524 |
| FfCC Lefel 2: | Tystysgrif Gyntaf BTEC |
| Gwerth credydau : | 10 |
| Oriau dysgu dan arweiniad: | 60 |

Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yw cyflwyno'r dysgwyr i ddibenion awduro ar y we a sut mae gwefannau'n cael eu creu. Bydd dysgwyr yn cyflawni hyn trwy astudio gwefannau sydd eisoes yn bodoli a thrwy gynllunio a chynhyrchu gwefan a myfyrio ar eu gwaith.

Cyflwyniad i'r Uned

Beth bynnag yw maint busnes, boed yn gwmni rhyngwladol enfawr fel News International neu'n westy teuluol yn Ucheldir yr Alban, mae'n fwy na thebyg bydd ganddo wefan. Bellach derbynnir mai gwefannau yw'r ffordd i fusnesau gyfathrebu â'u cleientiaid a'u cwsmeriaid - i hysbysebu eu bodolaeth, dweud wrth bobl beth sydd ganddynt i'w gynnig, a gwerthu eu cynnyrch a'u gwasanaethau. O ganlyniad, mae angen cynyddol am bobl sydd â'r sgiliau i greu a chynnal y safleoedd hyn.

Bydd yr uned hon yn datblygu sgiliau cychwynnol o ran technegau awduro ar y we. Bydd dysgwyr yn datblygu dealltwriaeth o'r we fyd-eang a'r sgiliau priodol i gynhyrchu tudalennau ar y we. Bydd dysgwyr yn medru ymgymryd â thasgau syml yn ymwneud â dylunio a gweithredu tudalennau ar y we. Byddant yn dysgu am dechnegau awduro, sut mae llunio gwefannau, a sut mae cyhoeddi eu deunydd ar y we fyd-eang.

Canlyniadau dysgu

Ar ôl cwblhau'r uned hon dylai dysgwr:

- 1 Wybod am egwyddorion a phrotocolau awduro ar y we
- 2 Gallu datblygu cynllun ar gyfer gwefan
- 3 Gallu defnyddio meddalwedd awduro ar y we i greu gwefan
- 4 Gallu adolygu eu gwaith eu hunain yn awduro ar y we.

Cynnwys yr Uned

1 Gwybod am egwyddorion a phrotocolau awduro ar y we

Protocolau: URL; enw parth; parth lefel uchaf; cofrestru enw'r parth; enwi tudalennau, e.e. mynegai.htm ar gyfer yr hafan, darparwyr gwasanaethau ar y rhyngwyd, gwe-letya;

Meddalwedd: golygydd testun HTML, e.e. Notepad; golygydd gweledol, e.e. FrontPage, Dreamweaver

Dylunio: maint y ffont; lliw'r ffont; cefndir; paragraff, torri llinellau; hypergysylltiadau, e.e. delwedd, tudalen, gwefan; taflenni arddull; metadogiau

2 Gallu datblygu cynllun ar gyfer gwefan

Cynllunio: diben; cynulleidfa; ystyriaethau cyfreithiol a moesegol

Strwythur: strwythur y safle, e.e. hafan, tudalennau cynnwys wedi'u cysylltu; cynllun y tudalennau, e.e. cysondeb, arddull y pennawd, arddull y corff, lliwiau, cefndiroedd

Cynnwys: testun; cynnwys a fewnforiwyd, e.e. testun, delweddau, animeiddio, fideo, seiniau, cerddoriaeth

3 Gallu defnyddio meddalwedd awduro ar y we i greu gwefan

Mathau o ffeiliau: e.e. htm, html, gif, jpeg

Strwythur y tudalennau: y pennawd; y corff; metadogiau (awdur, geiriau allweddol, disgrifiad)

Cynllun: cefndir; cynnwys sy'n cael ei ailadrodd, e.e. hawlfraint, masnachnod, logo, pennawd, is-bennawd, corff y dudalen; templed; taflenni arddull

Dulliau gosod: tablau (aliniad tablau, celloedd); taflenni arddull

Cynnwys wedi'i fewnforio: e.e. testun, delweddau, gif wedi'i animeiddio, flash, fideo, sain

Testun: ffont; aliniad; pwyslais; maint; arddulliau pennawd; lliw

Rhestrau: e.e. heb eu trefnu, mewn trefn

Delweddau: cydraniad; maint; aliniad (llorweddol a fertigol); llonydd; testun amgen

Hypergysylltiadau: cysylltiadau â thudalennau; www; e-bost; angorau (testun a delweddau); lliwiau cyswllt

4 Gallu adolygu eu gwaith eu hunain yn awduro ar y we

Cynnyrch gorffenedig: cymharu â'r bwriadau gwreiddiol; addasrwydd ar gyfer y gynulleidfa arfaethedig; nodweddion technegol; nodweddion esthetig

Y broses gynhyrchu: cymwyseddau technegol; galluoedd creadigol; rheoli amser; gwaith tîm (lle bo'n briodol)

Ffynonellau gwybodaeth: huanwerthuso; sylwadau gan eraill, e.e. y gynulleidfa, cymheiriaid, tiwtoriaid, y cleient; dogfennaeth, e.e. nodiadau, cofnodion cyfarfod, dyddiaduron cynhyrchu

Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth a gyflwynir gan ddysgwyr i'w hasesu ddangos eu bod yn medru cyflawni'r holl ganlyniadau dysgu ar gyfer yr uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

| Meini prawf asesu a graddio | | |
|--|--|---|
| I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu: | I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu: | I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu: |
| LI1 amlinellu egwyddorion a phrotocolau awduro ar y we | T1 disgrifio egwyddorion a phrotocolau awduro ar y we gyda pheth manylder, a chan gyfeirio at enghreifftiau priodol ohonynt | Rh1 egluro egwyddorion a phrotocolau awduro ar y we gan gyfeirio at enghreifftiau manwl gywir ohonynt |
| LI2 cynllunio a chyflwyno syniadau ar gyfer gwefan [YA, MC] | T2 cyflwyno syniadau datblygedig ar gyfer gwefan | Rh2 cyflwyno syniadau llawn dychymyg ar gyfer gwefan |
| LI3 defnyddio meddalwedd awduro ar y we i greu gwefan sy'n gwireddu'r bwriadau'n rhannol [HR] | T3 defnyddio meddalwedd awduro ar y we yn gymwys i greu gwefan sy'n gwireddu'r bwriadau i raddau helaeth | Rh3 defnyddio meddalwedd awduro ar y we yn fedrus i greu gwefan sy'n amlwg yn gwireddu'r bwriadau |
| LI4 adolygu cryfderau a gwendidau eich gwaith eich hun yn awduro ar y we. [DA] | T4 disgrifio cryfderau a gwendidau eich gwaith eich hun yn awduro ar y we gyda pheth manylder a chan gyfeirio at enghreifftiau priodol o hynny. | Rh4 gwerthuso cryfderau a gwendidau eich gwaith eich hun yn awduro ar y we, gan gyfeirio at enghreifftiau manwl gywir o hynny. |

PLTS: Lle bo hynny'n berthnasol, mae'r crynodeb hwn yn cyfeirio, mewn cromfachau petryal, at elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol i'r meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i ddysgwyr ddangos eu bod yn cymhwyso'r elfennau y cyfeiriwyd atynt o'r sgiliau hynny yn effeithiol.

| Allwedd | YA - ymholwyr annibynnol MC - meddylwyr creadigol | DA - dysgwyr adfyfyriol GT - gweithwyr tîm | HR - hunanreolwyr CE - cyfranogwyr effeithiol |
|---------|--|---|--|
|---------|--|---|--|

Uned 12: Graffeg Ddigidol ar gyfer Cyfryngau Rhyngweithiol a Phrintiedig

| | |
|-----------------------------------|-------------------------------|
| Côd yr Uned: | Y/600/6531 |
| FfCC Lefel 2: | Tystysgrif Gyntaf BTEC |
| Gwerth credydau : | 10 |
| Oriau dysgu dan arweiniad: | 60 |

Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yw cyflwyno'r dysgwyr i ddulliau cynhyrchu a datblygu graffeg ddigidol i'w defnyddio mewn cyfryngau rhyngweithiol a chynnyrch cyfryngau printiedig. Bydd dysgwyr yn archwilio'r theori sy'n sail ar gyfer creu graffeg ddigidol, ac yn defnyddio offer sylfaenol meddalwedd graffeg ddigidol i gynhyrchu delweddau ar gyfer cyfryngau rhyngweithiol a chynnyrch cyfryngau printiedig.

Cyflwyniad i'r Uned

Mae angen i unrhyw un sy'n ystyried gyrfa yn y diwydiant argraffu, delweddau symudol neu gyfryngau rhyngweithiol fod yn ymwybodol o'r gwahanol ddisgyblaethau a sgiliau sy'n berthnasol i'r diwydiant, ond a allai fod y tu allan i'w diddordebau penodol neu eu nodau gyrfa eu hunain. Mae cynnyrch printiedig yn cynnwys graffeg a darluniadau sydd yno i dynnu sylw'r darllenydd, a chyfleu neges benodol. Mae pob cynnyrch rhyngweithiol yn ymgorffori rhyw fath ar graffeg ddigidol, a bydd llawer o ffilmiau, fideos a rhaglenni teledu yn cynnwys dilyniannau sy'n defnyddio rhyw fath o graffeg ddigidol, yn enwedig yn y teitlau agoriadol a'r credydau terfynol. Mae angen i bawb sy'n mynd i sector y cyfryngau ddeall sut mae defnyddio offer manipwleiddio delweddau digidol, a chadw delweddau mewn fformatau ffeil priodol.

Ar y lefel hon mae ymwybyddiaeth sylfaenol a phrofiad o offer meddalwedd safon diwydiant yn ofynnol. Mae angen i bawb sy'n ymuno â'r sector ddeall hefyd sut mae cynllunio i wneud y defnydd mwyaf effeithiol o'u hadnoddau, a'r defnydd mwyaf effeithiol o'u hamser.

Mae'r uned hon yn darparu gwybodaeth, dealltwriaeth a phrofiad ymarferol i'r dysgwyr. Mae'n caniatáu i ddysgwyr gael profiad o gynhyrchu a datblygu graffeg ddigidol i'w defnyddio mewn amrywiaeth o gynnyrch. Mae'n bwysig bod dysgwyr ar y lefel hon yn datblygu sgiliau priodol o ran manipwleiddio delweddau graffeg ddigidol gan ddefnyddio meddalwedd cyfrifiadurol. Byddant yn archwilio'r dechnoleg a ddefnyddir i greu delweddau graffeg ddigidol. Trwy ddilyn yr uned hon, bydd dysgwyr yn ymgyswrtu ag offer sylfaenol meddalwedd graffeg ddigidol ac yn datblygu'r sgiliau angenrheidiol i greu a manipwleiddio graffeg ddigidol a ddefnyddir ar gyfer amrywiaeth o gynnyrch printiedig a chyfryngau rhyngweithiol.

Canlyniadau dysgu

Ar ôl cwblhau'r uned hon dylai dysgwr:

- 1 Wybod am dechnoleg graffeg ddigidol
- 2 Gallu cynhyrchu syniadau ar gyfer delweddau graffeg ddigidol
- 3 Gallu defnyddio offer digidol i greu graffeg ddigidol ar gyfer cynnyrch cyfryngau rhyngweithiol mewn ymateb i frîff
- 4 Gallu defnyddio offer digidol i greu graffeg ddigidol ar gyfer cynnyrch cyfryngau printiedig mewn ymateb i frîff.

Cynnwys yr Uned

1 Gwybod am dechnoleg graffeg ddigidol

Picseel: elfen y llun; cydraniad y ddelwedd

Mathau o ddelweddau digidol: raster (bmp, gif, tiff, jpg); vector (psd, wmf, fla, ai)

Estyniadau ffeiliau: e.e. bmp, png, gif, tiff, jpg, psd

Cywasgu: lossy; lossless

Cipio delwedd: sganiwr; camera digidol

Optimeiddio: allbwn y ddelwedd darged; dyfnder didol y ddelwedd; cydraniad y ddelwedd; dimensiynau'r ddelwedd; cywasgu

Allbwn: allbwn arfaethedig y ddelwedd, e.e. argraffu, sgrîn, y we fyd-eang; cywasgu

Storio asedau delweddau: maint y ffeil, confensiynau enwi ffeiliau, rheoli asedau

2 Gallu cynhyrchu syniadau ar gyfer delweddau graffeg ddigidol

Symbyliad: e.e. brîff y cleient, eich brîff eich hun

Syniadau: tasgu syniadau; darluniad; brasluniau bawd

Diben y ddelwedd: cynnyrch cyfryngau printiedig, e.e. poster, deunydd ysgrifennu, pecynnu; cynnyrch cyfryngau rhyngweithiol, e.e. botwm treiglo, bar llywio, gif wedi'i animeiddio, baner, logo, eicon

Datblygu syniadau: brasluniau cynllun; bwrdd stori; arddull weledol, e.e. lliw, arddull, cartwn, ffoto-realistic, lliwio cel, anime; cyfansoddiad; teipograffeg

3 Gallu defnyddio offer digidol i greu graffeg ddigidol ar gyfer cynnyrch cyfryngau rhyngweithiol mewn ymateb i friff

Mathau o ffeiliau: raster, e.e. bmp, gif, tiff, jpg; vector, e.e. psd, wmf, fla, ai

Cydraniad y ddelwedd ar y sgrîn: PPI (picseli'r fodfedd)

Offer digidol: lliw, e.e. palet, disgleirdeb, cyferbyniad; haenau; tocio; dethol e.e. marquee, lasso, ffon hud; copïo; pastio; dadwneud; arbed; effeithiau; hanes; siâp; brwshys; animeiddio gif; modd adiodyn lliw (RGB)

Graffeg cyfryngau rhyngweithiol: botymau treiglo; bariau llywio; gifiau wedi eu hanimeiddio; baneri; logos; eiconau

Allbwn delweddau: maint delweddau; cywasgu

Adolygu delweddau gorffenedig: cymharu â'r bwriadau gwreiddiol; nodweddion technegol; nodweddion esthetig

4 Gallu defnyddio offer digidol i greu graffeg ddigidol ar gyfer cynnyrch cyfryngau printiedig mewn ymateb i friff

Mathau o ffeiliau: raster, e.e. bmp, gif, tiff, jpg; vector, e.e. psd, wmf, fla, ai

Cydraniad y ddelwedd i'w phrintio: DPI (dotiau'r fodfedd); LPI (llinellau'r fodfedd)

Offer digidol: lliw, e.e. palet, disgleirdeb, cyferbyniad; haenau; tocio; dethol e.e. marquee, lasso, ffon hud; copïo; pastio; dadwneud; arbed; effeithiau; hanes; siâp; brwshys; lliw proses (CMYK)

Graffeg cyfryngau printiedig: poster; deunydd ysgrifennu, e.e. cerdyn busnes, gwahoddiad, taflen; pecynnu, e.e. label, caead blwch DVD

Allbwn delweddau: maint yr allbwn, e.e. A5, A4, A3; cyfeiriadaeth (tirlun, portread); proses pedwar lliw (CMYK)

Adolygu delweddau gorffenedig: cymharu â'r bwriadau gwreiddiol; nodweddion technegol; nodweddion esthetig

Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth a gyflwynir gan ddysgwyr i'w hasesu ddangos eu bod yn medru cyflawni'r holl ganlyniadau dysgu ar gyfer yr uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

| Meini prawf asesu a graddio | | |
|--|--|--|
| I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu: | I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu: | I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu: |
| LI1 amlinellu nodweddion allweddol technegol graffeg ddigidol | T1 disgrifio technegau graffeg ddigidol gyda pheth manylder, a chan gyfeirio at enghreifftiau priodol ohonynt | Rh1 egluro technoleg graffeg ddigidol gan gyfeirio at enghreifftiau manwl gywir, gan ddefnyddio iaith dechnegol gywir |
| LI2 cyflwyno syniadau ar gyfer delweddau graffeg ddigidol [MC] | T2 cyflwyno syniadau datblygedig ar gyfer delweddau graffeg ddigidol | Rh2 cyflwyno syniadau llawn dychymyg ar gyfer delweddau graffeg ddigidol |
| LI3 cymhwyso offer graffeg ddigidol priodol i greu delweddau graffeg ddigidol ar gyfer cynnyrch cyfryngau rhyngweithiol, mewn ymateb i frîff, gan wireddu'r bwriadau'n rhannol [MC, HR] | Rh3 cymhwyso offer graffeg ddigidol yn gymwys i greu delweddau graffeg ddigidol ar gyfer cynnyrch cyfryngau rhyngweithiol, mewn ymateb i frîff, gan wireddu'r bwriadau i raddau helaeth | Rh3 cymhwyso offer graffeg ddigidol yn fedrus i greu delweddau graffeg ddigidol ar gyfer cynnyrch cyfryngau rhyngweithiol, mewn ymateb i frîff, gan wireddu'r bwriadau yn amlwg |
| LI4 cymhwyso offer graffeg ddigidol priodol i greu delweddau graffeg ddigidol ar gyfer cynnyrch cyfryngau printiedig, mewn ymateb i frîff, gan wireddu'r bwriadau'n rhannol. [MC, HR] | T4 cymhwyso offer graffeg ddigidol yn gymwys i greu delweddau graffeg ddigidol ar gyfer cynnyrch cyfryngau printiedig, mewn ymateb i frîff, gan wireddu'r bwriadau i raddau helaeth. | Rh4 cymhwyso offer graffeg ddigidol yn fedrus i greu delweddau graffeg ddigidol ar gyfer cynnyrch cyfryngau printiedig, mewn ymateb i frîff, gan wireddu'r bwriadau yn amlwg. |

PLTS: Lle bo hynny'n berthnasol, mae'r crynodeb hwn yn cyfeirio, mewn cromfachau petryal, at elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol i'r meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i ddysgwyr ddangos eu bod yn cymhwyso'r elfennau y cyfeiriwyd atynt o'r sgiliau hynny yn effeithiol.

| | | | |
|----------------|--------------------------|-------------------------|-----------------------------|
| Allwedd | YA - ymholwyr annibynnol | DA - dysgwyr adfyfyriol | HR - hunanreolwyr |
| | MC - meddylwyr creadigol | GT - gweithwyr tîm | CE - cyfranogwyr effeithiol |

Uned 13: Celf Ddigidol 2D ar gyfer Gemau Cyfrifiadur

| | |
|-----------------------------------|-------------------------------|
| Côd yr Uned: | F/600/6538 |
| FfCC Lefel 2: | Tystysgrif Gyntaf BTEC |
| Gwerth credydau : | 10 |
| Oriau dysgu dan arweiniad: | 60 |

Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yw cyflwyno'r dysgwyr i'r broses o gynhyrchu a datblygu graffeg ddigidol 2D a gweadau i'w defnyddio mewn gemau cyfrifiadur. Bydd dysgwyr yn archwilio'r theori sy'n sail ar gyfer creu graffeg ddigidol ac yn datblygu eu hymwybyddiaeth o sut defnyddir arddulliau graffeg i greu naws a thema mewn gemau cyfrifiadur. Bydd dysgwyr yn datblygu eu sgiliau lluniadu â phensil ac yn archwilio amrywiaeth o dechnegau gwneud marciau. Bydd dysgwyr yn dod yn gyfarwydd ag offer sylfaenol meddalwedd graffeg ddigidol a ddefnyddir i gynhyrchu delweddau 2D a gweadau ar gyfer gemau o'u celf gysyniadol a luniwyd â phensil, ac yn myfyrio'n feirniadol ar eu gwaith eu hunain.

Cyflwyniad i'r Uned

Mae angen i unrhyw un sy'n ystyried gyrfa yn y diwydiant gemau fod yn ymwybodol o'r gwahanol ddisgyblaethau a sgiliau sy'n berthnasol i'r diwydiant, ond a allai fod y tu allan i'w diddordebau penodol neu eu nodau gyrfa eu hunain. Gyda graffeg yn parhau'n sail ar gyfer gwerthu'r gemau hyn, rhaid i'r rhai sy'n dymuno bod yn artistiaid graffeg yn y diwydiant gemau gaffael profiad ymarferol sylfaenol o gynhyrchu a datblygu graffeg ddigidol i'w defnyddio mewn gemau. Mae angen iddynt ddeall sut mae defnyddio offer manipwleiddio delweddau digidol, a chadw delweddau mewn fformatau ffeil priodol.

Ar y lefel hon mae ymwybyddiaeth sylfaenol a phrofiad o feddalwedd safon diwydiant yn ofynnol. Mae angen i bawb sy'n ymuno â'r diwydiant ddeall hefyd sut mae cynllunio i wneud y defnydd mwyaf effeithiol o adnoddau, a'r defnydd mwyaf effeithiol o'u hamser.

Mae'r uned hon yn darparu gwybodaeth, dealltwriaeth a phrofiad ymarferol i'r dysgwyr. Mae'n rhoi cyfle i'r dysgwyr gael profiad o gynhyrchu a datblygu graffeg 2D a gweadau i'w defnyddio mewn gemau cyfrifiadur. Mae'n bwysig bod dysgwyr ar y lefel hon yn datblygu sgiliau priodol o ran meddalwedd manipwleiddio graffeg ddigidol. Byddant yn archwilio'r arddulliau graffeg a ddefnyddir i greu naws a thema mewn gemau. Mae hefyd yn bwysig bod dysgwyr yn datblygu eu sgiliau lluniadu â phensil ac yn archwilio ystod o dechnegau gwneud marciau. Yn yr uned hon, bydd dysgwyr yn dod yn gyfarwydd ag offer sylfaenol meddalwedd graffeg ddigidol a ddefnyddir i gynhyrch delweddau digidol 2D a gweadau ar gyfer gemau cyfrifiadur o waith celf cysyniadol.

Canlyniadau dysgu

Ar ôl cwblhau'r uned hon dylai dysgwr:

- 1 Wybod am dechnoleg graffeg ddigidol
- 2 Gwybod am yr arddulliau graffeg a'r themâu graffeg a ddefnyddir mewn gemau
- 3 Gallu defnyddio pensil i lunio celf gysyniadol ar gyfer gêm
- 4 Gallu defnyddio offer digidol i greu delwedd ddigidol 2D a gwead ar gyfer gêm o ddarlun cysyniadol.

Cynnwys yr Uned

1 Gwybod am dechnoleg graffeg ddigidol

Picseel: elfen y llun; cydraniad y ddelwedd

Mathau o graffeg ddigidol: delweddau raster (bmp, gif, tiff, jpg); delweddau vector (psd, wmf, fla, ai)

Estyniadau ffeiliau: e.e. bmp, png, gif, tiff, jpg, psd

Cywasgu: lossy; lossless

Cipio delwedd: sganiwr; camera digidol

Optimeiddio: allbwn y ddelwedd darged; dyfnder didol y ddelwedd; cydraniad y ddelwedd; dimensiynau'r ddelwedd; cywasgu

Allbwn: allbwn arfaethedig y ddelwedd, e.e. argraffu, sgrîn, y we fyd-eang; cywasgu

Storio asedau delweddau: maint y ffeil, confensiynau enwi ffeiliau, rheoli asedau

2 Gwybod am yr arddulliau graffeg a'r themâu graffeg a ddefnyddir mewn gemau

Arddulliau graffeg: lliw, e.e. theori lliw, canfyddiad o liw, effaith lliw, pwynt ffocws; arddull, e.e. cartwn, ffoto-realistic, lliwio-cel; gornneud, e.e. anime

Themâu graffeg: e.e. cyffro, antur, chwaraeon, ffantasi, efelychu

3 Gallu defnyddio pensil i lunio celf gysyniadol ar gyfer gêm

Symbyliad: e.e. brîff y cleient, eich brîff eich hun

Syniadau: tasgu syniadau; byrddau hwyliu; brasluniau bawd

Technegau lluniadu â phensil: persbectif (un pwynt, dau bwynt, tri phwynt, safbwynt); graddfa; cyfrannedd; gwneud marciau, e.e. lliwio, cysgod, gwerth tonaid, pwysau llinellau

Celf gysyniadol: lluniadau pensil (cymeriad, arf, cerbyd, amgylchedd)

4 Gallu defnyddio offer digidol i greu delwedd ddigidol 2D a gwead ar gyfer gêm o ddarlun cysyniadol

Mathau o ffeiliau: raster, e.e. bmp, gif, tiff, jpg; vector, e.e. psd, wmf, fla, ai

Offer digidol: maint a chydaniad; lliw, e.e. palet, disgleirdeb, cyferbyniad; haenau; tocio; dethol e.e. marquee, lasso, ffon hud; copïo; pastio; dadwneud; arbed; effeithiau; hanes; siâp; brwshys

Creu delwedd ddigidol 2D a gwead: o gelf gysyniadol, e.e. cymeriad, arf, cerbyd, amgylchedd; gweadau i orchuddio gwrthrychau 3D, e.e. concrid, carreg, pren, daear, bric, defnydd, wybren, metel

Adolygu'r ddelwedd orffenedig: cymharu â'r bwriadau gwreiddiol; nodweddion technegol; nodweddion esthetig

Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth a gyflwynir gan ddysgwyr i'w hasesu ddangos eu bod yn medru cyflawni'r holl ganlyniadau dysgu ar gyfer yr uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

| Meini prawf asesu a graddio | | |
|--|---|---|
| I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu: | I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu: | I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu: |
| LI1 amlinellu nodweddion allweddol technegol graffeg ddigidol | T1 disgrifio technegau graffeg ddigidol gyda pheth manylder, a chan gyfeirio at enghreifftiau priodol ohonynt | Rh1 egluro technoleg graffeg ddigidol gan gyfeirio at enghreifftiau manwl gywir, gan ddefnyddio iaith dechnegol gywir |
| LI2 amlinellu'r arddulliau graffeg a'r themâu graffeg a ddefnyddir mewn gemau | T2 disgrifio'r arddulliau graffeg a'r themâu graffeg a ddefnyddir mewn gemau gyda pheth manylder, a chan gyfeirio at enghreifftiau priodol ohonynt | Rh2 egluro'r arddulliau graffeg a'r themâu graffeg a ddefnyddir mewn gemau gan gyfeirio at enghreifftiau manwl gywir ohonynt a defnyddio iaith dechnegol gywir |
| LI3 cymhwyso technegau priodol lluniadu â phensil i greu celf gysyniadol ar gyfer gêm, gan wireddu'r bwriadau'n rhannol [MC] | T3 cymhwyso technegau priodol lluniadu â phensil yn gymwys i greu celf gysyniadol ar gyfer gêm, gan wireddu'r bwriadau i raddau helaeth | Rh3 cymhwyso technegau priodol lluniadu â phensil yn fedrus ac yn llawn dychymyg i greu celf gysyniadol ar gyfer gêm, gan wireddu'r bwriadau'n amlwg |
| LI4 cymhwyso offer graffeg ddigidol priodol i greu delwedd ddigidol 2D a gwead ar gyfer gêm o ddarluniad cysyniadol, gan wireddu'r bwriadau'n rhannol. [MC, HR] | T4 cymhwyso offer graffeg ddigidol priodol i yn gymwys i greu delwedd ddigidol 2D a gwead ar gyfer gêm o ddarluniad cysyniadol, gan wireddu'r bwriadau i raddau helaeth. | Rh4 cymhwyso offer graffeg ddigidol priodol i yn fedrus ac yn llawn dychymyg i greu delwedd ddigidol 2D a gwead ar gyfer gêm o ddarluniad cysyniadol, gan wireddu'r bwriadau yn amlwg. |

PLTS: Lle bo hynny'n berthnasol, mae'r crynodeb hwn yn cyfeirio, mewn cromfachau petryal, at elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol i'r meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i ddysgwyr ddangos eu bod yn cymhwyso'r elfennau y cyfeiriwyd atynt o'r sgiliau hynny yn effeithiol.

| | | | |
|----------------|--------------------------|-------------------------|-----------------------------|
| Allwedd | YA - ymholwyr annibynnol | DA - dysgwyr adfyfyriol | HR - hunanreolwyr |
| | MC - meddylwyr creadigol | GT - gweithwyr tîm | CE - cyfranogwyr effeithiol |

Uned 14: Dadelfennu gemau cyfrifiadur

| | |
|-----------------------------------|-------------------------------|
| Côd yr Uned: | F/600/6541 |
| FfCC Lefel 2: | Tystysgrif Gyntaf BTEC |
| Gwerth credydau : | 10 |
| Oriau dysgu dan arweiniad: | 60 |

Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yw rhoi i ddysgwyr ddealltwriaeth o gemau cyfrifiadur a'r llwyfannau sy'n galluogi pobl i'w chwarae. Bydd dysgwyr yn edrych ar llwyfannau gemau a'u cyfyngiadau, yn dysgu am y cydrannau hanfodol sy'n cyfrannu at gêm gyfrifiadurol, ac yn dadelfennu gêm.

Cyflwyniad i'r Uned

Yn y diwydiant gemau, mae 'dadelfennu gêm' yn dechneg gyffredin a ddefnyddir gan ddatblygwyr gemau i helpu i greu gemau gwell. Mae'n golygu adeiladu teitl llwyddiannus o chwith mewn ymgais i wahanu ei elfennau a'u hadnabod, a hefyd sut rhoddwyd yr elfennau cydrannol hynny at ei gilydd. Mae'r uned hon yn datblygu dealltwriaeth, iaith a phwyntiau ffocws a ddylai alluogi'r dysgwyr i ddadelfennu gemau.

Mae angen i rai sy'n ymuno â'r diwydiant gemau cyfrifiadur fod ag ymwybyddiaeth sylfaenol o'r gwahaniaethau rhwng galluoedd y llwyfannau sy'n caniatáu i'r gemau redeg, a'u dyfeisiau ymylol arbennig cysylltiedig. Mae angen hefyd iddynt ddeall y cydrannau sylfaenol sy'n dod ynghyd i greu gêm derfynol, a dylent fod yn ymwybodol o genres cyffredin o gemau, gwahaniaethau rhyngddynt, a'r math o gynulleidfa mae pob genre yn apelio ati.

Yn y diwydiant gemau modern, er mwyn gwneud yr elw mwyaf posib, anaml y cynhyrchir teitlau gemau i'w chwarae ar un llwyfan yn unig. Ond mae gan bob llwyfan ofynion, galluoedd ac elfennau ymylol gwahanol, ac felly mae'n bwysig i'r dysgwyr archwilio datblygiad llwyfannau gemau cyfrifiadur er mwyn canfod y cyfyngiadau sy'n effeithio ar y gemau y gellir eu chwarae arnynt.

Mae techneg dadelfennu wedi'i seilio ar y ddealltwriaeth bod gan bob gêm flociau adeiladu, a bod modd ymchwilio iddynt. Un o brif gydrannau gêm yw ei harddull weledol, ac felly i ddadelfennu'n llwyr, dylai dysgwyr archwilio arddull weledol gemau cyfrifiadur a chael cyfleoedd i gydnabod pwysigrwydd hynny o ran cynnal sylw chwaraewyr.

Mae'r dull o chwarae'r gêm yn un arall o'r prif gydrannau, a dylai'r dysgwyr astudio agweddau craidd ar y dull o chwarae'r gêm er mwyn gweld beth sy'n golygu bod pobl yn mwynhau gemau.

Mae gemau'n cael eu llunio i ymateb i anghenion cynulleidfa, ac yn yr uned hon bydd dysgwyr yn cael cyfleoedd i nodi a dosbarthu cynulleidfaoedd nodweddiadol ar gyfer y gemau a astudiwyd. Byddant yn archwilio genres a welir yn gyffredin mewn gemau cyfrifiadur.

Mae'r uned hon yn rhoi gwybodaeth, dealltwriaeth a phrofiad ymarferol o ddull strwythuredig o chwarae gemau i'r dysgwyr.

Bydd dysgwyr yn cymhwyso eu dysgu trwy ddadansoddi gêm cyfrifiadur er mwyn disgrifio ei chydannau'n fanwl.

Canlyniadau dysgu

Ar ôl cwblhau'r uned hon dylai dysgwr:

- 1 Wybod am lwyfannau gemau cyfrifiadur
- 2 Gwybod am gydrannau gemau cyfrifiadur
- 3 Gallu dadelfennu gêm cyfrifiadur.

Cynnwys yr Uned

1 Gwybod am llwyfannau gemau cyfrifiadur

Datblygiad llwyfannau: e.e. arcêd, consolau, cyfrifiadur personol, symudol, offer llaw, dwy sgrîn, y we fyd-eang

Cyfyngiadau llwyfannau: gallu'r prosesydd; galluoedd arddangos; y lle storio sydd ar gael; y cysylltedd sydd ar gael

Dyfeisiau ymylol: e.e. rheolyddion, padiau gemau, ffyn rheoli, camerâu, ymateb i rym

2 Gwybod am gydrannau gemau cyfrifiadur

Arddull weledol: byd (tirwedd, pensaernïaeth, gwrthrychau); cymeriadau; cymeriadau nad ydynt yn chwarae (NPC); rhyngwyneb adborth; persbectif (2D, 3D, person cyntaf, trydydd person, sgrolio, o'r awyr, ymateb i'r cyd-destun); fideo symudiad llawn (FMV)

Chwarae'r gêm: nodau; rheolau; heriau; anhawster; cydbwysedd; gwobrau; stori; seiniau; adborth; mecaneg y gêm (gweithredoedd, dulliau rheoli, rhestr gynnwys, sgorio, amodau ennill); cerddoriaeth y gêm; moddau chwaraewyr; trochiad; gallu i ailchwarae

Cynulleidfa: diffiniad, e.e. oedran, rhyw, dwys, achlysurol; dewisiadau; cymunedau gemau

Genre gemau: diffiniad yn ôl mecaneg y gêm; genres nodweddiadol, e.e. cyffro, antur, efelychu, chwarae rôl, chwaraeon, strategaeth, pŵs, rheoli

3 Gallu dadelfennu gêm cyfrifiadur

Dadelfennu gêm: chwarae'r gêm mewn modd strwythuredig; dadansoddiad, e.e. llwyfan, genre, cynulleidfa, graddau'r cynnwys, arddull weledol, anhawster, gwobrau, mynd yn gaeth, seiniau, ansawdd graffeg; USP (Pwynt(iau) Gwerthu Unigryw)

Adroddiad dadelfennu: dadansoddiad; agweddau cadarnhaol; agweddau negyddol

Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth a gyflwynir gan ddysgwyr i'w hasesu ddangos eu bod yn medru cyflawni'r holl ganlyniadau dysgu ar gyfer yr uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

| Meini prawf asesu a graddio | | |
|---|---|---|
| I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu: | I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu: | I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu: |
| LI1 amlinellu datblygiad a galluoedd llwyfannau gemau cyfrifiadur | T1 disgrifio datblygiad a galluoedd llwyfannau gemau cyfrifiadur gyda pheth manylder, a chan gyfeirio at enghreifftiau priodol ohonynt | Rh1 egluro datblygiad a galluoedd llwyfannau gemau cyfrifiadur, gan gyfeirio at enghreifftiau manwl gywir ohonynt |
| LI2 amlinellu nodweddion cydrannau gemau cyfrifiadur | T2 disgrifio cydrannau gemau cyfrifiadur gyda pheth manylder a chan gyfeirio at enghreifftiau priodol ohonynt | Rh2 egluro cydrannau gemau cyfrifiadur gan gyfeirio at enghreifftiau manwl gywir ohonynt |
| LI3 cyflwyno adroddiad dadelfennu ar gyfer gêm cyfrifiadur. [YA] | T3 cyflwyno adroddiad dadelfennu manwl ar gyfer gêm cyfrifiadur, gydag enghreifftiau priodol. | Rh3 cyflwyno adroddiad dadelfennu trwyadl ar gyfer gêm cyfrifiadur, gydag enghreifftiau manwl gywir, a chan ddefnyddio'r derminoleg gywir. |

PLTS: Lle bo hynny'n berthnasol, mae'r crynodeb hwn yn cyfeirio, mewn cromfachau petryal, at elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol i'r meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i ddysgwyr ddangos eu bod yn cymhwyso'r elfennau y cyfeiriwyd atynt o'r sgiliau hynny yn effeithiol.

| Allwedd | YA - ymholwyr annibynnol | DA - dysgwyr adfyfyril | HR - hunanreolwyr |
|---------|--------------------------|------------------------|-----------------------------|
| | MC - meddylwyr creadigol | GT - gweithwyr tîm | CE - cyfranogwyr effeithiol |

Uned 15: Profi gemau cyfrifiadur

| | |
|-----------------------------------|-------------------------------|
| Côd yr Uned: | Y/600/6545 |
| FfCC Lefel 2: | Tystysgrif Gyntaf BTEC |
| Gwerth credydau : | 10 |
| Oriau dysgu dan arweiniad: | 60 |

Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yw rhoi dealltwriaeth sylfaenol o dechnegau profi gemau cyfrifiadur i'r dysgwyr a'r rôl a chwaraeir gan adrannau sicrhau ansawdd (SA) stiwdios datblygu gemau. Bydd dysgwyr yn astudio'r broses o gynhyrchu gemau a'r adran SA, yn dysgu am gamau'r profi a'r mathau o ddiffygion, ac yn cynnal profion ar gêm cyfrifiadur sy'n cael ei llunio.

Cyflwyniad i'r Uned

Swydd profwr gemau cyfrifiadur yw un o'r rolau pwysicaf yn y diwydiant gemau cyfrifiadur. Bydd llawer iawn o amser, ymdrech ac arian yn cael eu buddsoddi wrth lunio gêm, felly mae'n hanfodol bod y datblygwyr yn sicrhau nad oes braidd dim bygiau ynddi cyn iddi gael ei chyhoeddi a'i rhyddhau. Gall unrhyw ddiffygion pwysig sy'n parhau effeithio ar enw da'r cwmnïau gemau dan sylw trwy dynnu oddi wrth brofiad y chwaraewr oherwydd bod y dull o chwarae'r gêm yn ddiffygiol.

Yn aml iawn gwelir swydd profi gemau fel un ffordd i recriwt gael mynediad i'r diwydiant gemau cyfrifiadur. Er mwyn cyfrannu'n effeithlon at y tîm datblygu, rhaid i brofwr gemau ddeall rôl yr adran SA (profi) a'i pherthynas ag adrannau niferus stiwdio datblygu, ac adnabod cyfrifoldebau ei rôl brofi ei hun. Rhaid i brofwr gemau da wybod nid yn unig sut mae chwarae gemau ond hefyd rhaid iddo fod yn ddigon angerddol i gynnal diddordeb trwy lawer o heriau profi ailadroddus. Rhaid i brofwr fod yn drefnus ac yn gyfathrebwr da. Nod yr uned hon yw darparu gwybodaeth waelodol i'r dysgwyr ynghylch y broses o gynhyrchu gemau, ac mae'n eu hannog i bwysu a mesur i ba raddau mae eu nodweddion personol yn cyfateb i'r rhai sy'n ofynnol ar gyfer rôl profwr gemau.

Mae profion a gynhelir ar gemau sy'n cael eu creu yn dilyn dilyniant amlwg ar hyd datblygiad y gêm, gan adlewyrchu camau datblygiad y gêm. Defnyddir amodau profi rywfaint yn wahanol yn yr amrywiol gamau datblygu hyn, ac mae'r uned hon yn galluogi'r dysgwyr i ddatblygu eu dealltwriaeth o'r gofynion profi gwahanol hyn.

Bydd dysgwyr yn dod i ddeall beth sy'n achosi i fygiau ddod i'r golwg mewn gêm, a pha fathau o ddiffygion y gellir cael hyd iddynt mewn gêm.

Yn ogystal ag edrych ar wahanol gamau'r profi wrth lunio gêm a dosbarthu'r mathau o ddiffygion, bydd y dysgwyr yn archwilio pa fathau o dechnegau profi a ddefnyddir, ac yn cael cyfleoedd i gymhwyso o leiaf un o'r technegau hyn er mwyn ysgrifennu adroddiadau bygiau cynhwysfawr, wedi eu dogfennu'n dda.

Canlyniadau dysgu

Ar ôl cwblhau'r uned hon dylai dysgwr:

- 1 Wybod am y broses o ddatblygu gemau
- 2 Gwybod am gamau profi gemau
- 3 Gwybod am y mathau o ddiffygion y gellir cael hyd iddynt mewn gêm
- 4 Gallu cynhyrchu adroddiad ar fygiau gan ddefnyddio techneg profi.

Cynnwys yr Uned

1 Gwybod am y broses o ddatblygu gemau

Adrannau'r datblygwr: dylunio; rhaglennu; celf; sain; sicrhau ansawdd; cyhoeddi a dosbarthu

Camau datblygiad y gêm: datblygu'r cysyniad; rhag-gynhyrchu, e.e. cynllun y prosiect, dogfen dylunio technegol, llwybr cynhyrchu; datblygiad; prototeipiau ar gyfer y gêm; profi; rhyddhau

Proffil swydd profwr gemau: Y tîm SA (cynhyrchydd, arweinydd SA, profwr gemau); sgiliau profwr, e.e. mwynhau gemau'n angerddol, manylder, dyfalbarhad, amynedd, sgiliau cyfathrebu da, tact; natur y gwaith profi (systematig, disgybledig, ailadroddus, oriau hir, dan bwysau, yn gweithio i amserlenni tynn)

2 Gwybod am gamau profi gemau

Cychwyn profi: paratoi (gofynion y nodwedd sydd i'w phrofi, cyfarpar, ffeiliau, rhaglenni, conffigwreiddio, bod yn gyfarwydd ag achosion prawf); cyfarfod cychwynnol (agenda, trosolwg o'r nodwedd, cyfarwyddiadau arbennig, cyfrifoldebau, terfynau amser, datrys problemau)

Profion cam yn ôl: bygiau wedi eu trwsio gan y tîm datblygu; rhestr taro i lawr; gwirio

Cam Alpha: meini prawf mynediad, e.e. cydymffurfiaeth 50% â'r rhestr wirio o ofynion technegol (TRC/TCR/Lot Check), celf dalfan, sain dalfan, rhyngwyneb cyflawn, arddangosydd tynnu sylw (HUD), cydweddoldeb caledwedd a meddalwedd; nodi gwaelodlin perfformiad (cyflymder fframiau amser llwytho)

Cam Beta: meini prawf mynediad, e.e. cydymffurfiaeth 100% (cyn ardystio), nodwedd yn gyflawn, AI yn gyflawn, gwaith celf yn gyflawn, sain yn gyflawn; cloi'r dylunio; profi allanol; profi mewnol; beta caeedig; beta agored

Profi aur: canllawiau rhyddhau; cloi'r côd; ymgeiswyr meistr aur (GMCs)

3 Gwybod am y mathau o ddiffygion y gellir cael hyd iddynt mewn gêm

Mathau o ddiffygion: e.e. diffygion swyddogaeth, diffygion aseiniad, diffygion gwirio, diffygion amseru, diffygion lluniad/pecyn/cyfuno, diffygion algorithm, diffygion dogfennaeth, diffygion rhyngwyneb

4 Gallu cynhyrchu adroddiad ar fygiau gan ddefnyddio techneg profi

Technegau profi: e.e. profion blwch du, profion blwch gwyn, profion ad hoc (gyda chyfarwyddyd, heb gyfarwyddyd), profion chwarae, profion cyfuniadol (cysyniad, defnydd o dempledi)

Ysgrifennu adroddiad ar fygiau: strwythur yr adroddiad; arddull yr ysgrifennu (eglwur a chryno); disgrifiad crynodol; dosbarthu'r bygiau; disgrifiad llawn o'r diffyg; cipluniau; camau i atgynhyrchu; meddalwedd ysgrifennu adroddiadau; cronfeydd data

Profi lluniad y gêm: techneg profi (dethol, cymhwyso); dilyn achosion profi; adroddiad ar fygiau

Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth a gyflwynir gan ddysgwyr i'w hasesu ddangos eu bod yn medru cyflawni'r holl ganlyniadau dysgu ar gyfer yr uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

| Meini prawf asesu a graddio | | |
|---|--|--|
| I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu: | I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu: | I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu: |
| LI1 amlinellu'r broses o ddatblygu gemau | T1 disgrifio'r broses o ddatblygu gemau gyda pheth manylder, a chan gyfeirio at enghreifftiau priodol ohoni | Rh1 egluro'r broses o ddatblygu gemau, gan gyfeirio at enghreifftiau manwl gywir ohoni |
| LI2 amlinellu camau profi gemau | T2 disgrifio camau profi gemau gyda pheth manylder, a chan gyfeirio at enghreifftiau priodol ohonynt | Rh2 egluro camau profi gemau, gan gyfeirio at enghreifftiau manwl gywir ohonynt |
| LI3 amlinellu'r mathau o ddiffygion a geir mewn gemau | T2 disgrifio'r mathau o ddiffygion y ceir hyd iddynt mewn gemau gyda pheth manylder, a chan gyfeirio at enghreifftiau priodol ohonynt | Rh3 egluro'r mathau o ddiffygion y ceir hyd iddynt mewn gemau, gan gyfeirio at enghreifftiau manwl gywir ohonynt |
| LI4 cyflwyno adroddiad ar fygiau ar gyfer gêm cyfrifiadur, gan ddefnyddio techneg brofi. [HR] | T4 cyflwyno adroddiad manwl ar fygiau ar gyfer gêm cyfrifiadur, gan ddefnyddio techneg brofi yn gymwys, a rhoi enghreifftiau priodol. | Rh4 cyflwyno adroddiad sylweddol ar fygiau ar gyfer gêm cyfrifiadur, gan ddefnyddio techneg brofi hyd at safon uchel, a rhoi enghreifftiau manwl gywir. |

PLTS: Lle bo hynny'n berthnasol, mae'r crynodeb hwn yn cyfeirio, mewn cromfachau petryal, at elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol i'r meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i ddysgwyr ddangos eu bod yn cymhwyso'r elfennau y cyfeiriwyd atynt o'r sgiliau hynny yn effeithiol.

| Allwedd | YA - ymholwyr annibynnol MC - meddylwyr creadigol | DA - dysgwyr adfyfyriol GT - gweithwyr tîm | HR - hunanreolwyr CE - cyfranogwyr effeithiol |
|---------|--|---|--|
|---------|--|---|--|

Uned 16: Peiriannau gemau cyfrifiadur 2D

| | |
|-----------------------------------|-------------------------------|
| Côd yr Uned: | H/600/6547 |
| FfCC Lefel 2: | Tystysgrif Gyntaf BTEC |
| Gwerth credydau : | 10 |
| Oriau dysgu dan arweiniad: | 60 |

Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yw darparu gwybodaeth a phrofiad ymarferol o beiriannau gemau 2D i'r dysgwyr. Mae'n rhoi cyfle i'r dysgwyr gael profiad o gynhyrchu a datblygu gemau 2D, defnyddio meddalwedd priodol, a chyhoeddi gemau.

Cyflwyniad i'r Uned

Mae angen bod gan bobl sy'n ymuno â'r diwydiant gemau ymwybyddiaeth sylfaenol o sut mae gemau wedi cael eu llunio. Ar y lefel hon mae'n bwysig bod gan y rhai sy'n ystyried gyrfa yn y diwydiant werthfawrogiad sylfaenol o sut defnyddir peiriannau gemau i gynhyrchu elfennau ymarferol gêm. Rhaid iddynt fod yn ymwybodol o gyfyngiadau posib llwyfannau targed a'r hyn y gallant ei gyflawni. Dylent brofi defnydd effeithiol o offer datblygu 2D i gynhyrchu byd gemau sylfaenol.

Mae'r uned hon yn darparu gwybodaeth, dealltwriaeth a phrofiad ymarferol o beiriant gemau 2D i'r dysgwyr. Mae'n rhoi cyfle i'r dysgwyr gael profiad o gynhyrchu a datblygu gemau 2D, defnyddio offer meddalwedd datblygu priodol, y ddogfennaeth a becynnir ynghyd â gemau 2D a gyhoeddwyd, a sut y dosbarthir gemau 2D. Wrth gynhyrchu byd gemau 2D, bydd y dysgwyr yn cael cyfle i archwilio'r adnoddau a ddefnyddir i greu gêm 2D, ac yn datblygu eu sgiliau o ran rheoli meddalwedd peiriant gemau 2D.

Canlyniadau dysgu

Ar ôl cwblhau'r uned hon dylai dysgwr:

- 1 Wybod am lwyfannau gemau 2D a'u cyfyngiadau
- 2 Gwybod am yr asedau gemau 2D a ddefnyddir i greu byd gemau
- 3 Gwybod sut y defnyddir peiriannau gemau 2D i greu byd gemau
- 4 Gallu creu byd gemau 2D mewn ymateb i fanyleb.

Cynnwys yr Uned

1 Gwybod am lwyfannau gemau 2D a'u cyfyngiadau

Llwyfannau gemau 2D: offer llaw; symudol; y we fyd-eang; cyfrifiadur personol (PC)

Cyfyngiadau gemau 2D): golwg isometrig; corluniau; dyfnder lliw

2 Gwybod am yr asedau gemau 2D a ddefnyddir i greu byd gemau

Asedau graffeg: corluniau; cefndiroedd; lliwiau

Asedau ymddygiad: ymddygiad, e.e. digwyddiadau, gwrthrychau, sgriptiau

Asedau sain: effeithiau; lefel y sain; cerddoriaeth; deialog; mathau o ffeiliau, e.e. wav, midi

3 Gwybod sut y defnyddir peiriannau gemau 2D i greu byd gemau

Peiriant gemau 2D: diben; offer a nodweddion, e.e. corluniau, cefndiroedd, lliwiau, digwyddiadau, gweithredoedd, ystafelloedd, gwrthrychau, sgriptiau, sain

Dogfennaeth y defnyddiwr: canllaw i'r defnyddiwr; ffeiliau readme

Dosbarthu gêm: cyhoeddi, e.e. ffeiliau gweithredadwy, ffeiliau zip, dosbarthiad electronig

4 Gallu creu byd gemau 2D mewn ymateb i fanyleb

Cynllunio: amserlen; rheoli amser; gwaith tîm; terfynau amser

Manyleb Byd Gemau: cynhyrchu syniad, e.e. cynulleidfa, brasluniau bawd, chwarae'r gêm; dogfennau manyleb y gêm, e.e. cynlluniau lefel, rhestr o'r asedau angenrheidiol

offer a nodweddion peiriant gemau 2D: adeiladu byd gemau 2D, e.e. corluniau, cefndiroedd, lliwiau, digwyddiadau, gweithredoedd, ystafelloedd, gwrthrychau, sgriptiau, sain

Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth a gyflwynir gan ddysgwyr i'w hasesu ddangos eu bod yn medru cyflawni'r holl ganlyniadau dysgu ar gyfer yr uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

| Meini prawf asesu a graddio | | |
|---|--|---|
| I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu: | I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu: | I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu: |
| LI1 amlinellu nodweddion llwyfannau gemau 2D a'u cyfyngiadau | T1 disgrifio llwyfannau gemau 2D a'u cyfyngiadau gyda pheth manylder, a chan gyfeirio at enghreifftiau priodol ohonynt | Rh1 egluro llwyfannau gemau 2D a'u cyfyngiadau, gan gyfeirio at enghreifftiau manwl gywir ohonynt, a defnyddio iaith dechnegol gywir |
| LI2 amlinellu asedau gemau 2D o ran graffeg, ymddygiad a sain | T2 disgrifio asedau gemau 2D o ran graffeg, ymddygiad a sain gyda pheth manylder, a chan gyfeirio at enghreifftiau priodol ohonynt | Rh2 egluro asedau gemau 2D o ran graffeg, ymddygiad a sain, gan gyfeirio at enghreifftiau manwl gywir ohonynt a defnyddio iaith dechnegol gywir |
| LI3 amlinellu sut y defnyddir peiriannau gemau 2D i greu byd gemau | T3 disgrifio sut y defnyddir peiriannau gemau 2D i greu byd gemau gyda pheth manylder, a chan gyfeirio at enghreifftiau priodol o hynny | Rh3 egluro sut y defnyddir peiriannau gemau 2D i greu byd gemau, gan gyfeirio at enghreifftiau manwl gywir o hynny a defnyddio iaith dechnegol gywir |
| LI4 cymhwyso offer a nodweddion peiriant gemau 2D i greu, i fanyleb, byd gemau y gellir chwarae ynddo sy'n gwireddu'r bwriadau'n rhannol. [MC, HR] | T4 cymhwyso offer a nodweddion peiriant gemau 2D yn gymwys i greu, i fanyleb, byd gemau y gellir chwarae ynddo sy'n gwireddu'r bwriadau i raddau helaeth. | Rh4 cymhwyso offer a nodweddion peiriant gemau 2D yn fedrus i greu, i fanyleb, byd gemau y gellir chwarae ynddo sy'n amlwg yn gwireddu'r bwriadau. |

PLTS: Lle bo hynny'n berthnasol, mae'r crynodeb hwn yn cyfeirio, mewn cromfachau petryal, at elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol i'r meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i ddysgwyr ddangos eu bod yn cymhwyso'r elfennau y cyfeiriwyd atynt o'r sgiliau hynny yn effeithiol.

| | | | |
|----------------|--------------------------|-------------------------|-----------------------------|
| Allwedd | YA - ymholwyr annibynnol | DA - dysgwyr adfyfyriol | HR - hunanreolwyr |
| | MC - meddylwyr creadigol | GT - gweithwyr tîm | CE - cyfranogwyr effeithiol |

Uned 17: Peiriannau gemau cyfrifiadur 3D

| | |
|-----------------------------------|-------------------------------|
| Côd yr Uned: | K/600/6551 |
| FfCC Lefel 2: | Tystysgrif Gyntaf BTEC |
| Gwerth credydau : | 10 |
| Oriau dysgu dan arweiniad: | 60 |

Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yw darparu gwybodaeth, dealltwriaeth a phrofiad ymarferol o beiriant gemau 3D i'r dysgwyr. Mae'n rhoi cyfle i'r dysgwyr gael profiad o gynhyrchu a datblygu gemau 3D, defnyddio meddalwedd priodol, a chyhoeddi gemau.

Cyflwyniad i'r Uned

Mae angen bod gan bobl sy'n ymuno â'r diwydiant gemau ymwybyddiaeth sylfaenol o sut mae gemau wedi cael eu llunio. Ar y lefel hon mae'n bwysig bod gan y rhai sy'n ystyried gyrfa yn y diwydiant werthfawrogiad sylfaenol o sut defnyddir peiriannau gemau i gynhyrchu elfennau ymarferol gêm. Rhaid iddynt fod yn ymwybodol o gyfyngiadau posib llwyfannau targed a'r hyn y gallant ei gyflawni. Dylent brofi defnydd effeithiol o offer datblygu 3D i gynhyrchu byd gemau sylfaenol.

Mae'r uned hon yn darparu gwybodaeth, dealltwriaeth a phrofiad ymarferol o beiriant gemau 3D i'r dysgwyr. Mae'n rhoi cyfle i'r dysgwyr gael profiad o gynhyrchu a datblygu gemau 3D, defnyddio meddalwedd priodol, y ddogfennaeth a becynnir ynghyd â gemau 3D a gyhoeddir, a sut y dosbarthir gemau 3D. Mae'n bwysig bod dysgwyr ar y lefel hon yn gwerthfawrogi'r mathau o lwyfannau sy'n defnyddio gemau 3D. Wrth gynhyrchu byd gemau 3D, bydd y dysgwyr yn cael cyfle i archwilio'r adnoddau a ddefnyddir i greu gêm 3D, ac yn datblygu eu sgiliau o ran rheoli meddalwedd peiriant gemau 3D.

Canlyniadau dysgu

Ar ôl cwblhau'r uned hon dylai dysgwr:

- 1 Wybod am lwyfannau gemau 3D a'r dyfeisiau y gellir eu cysylltu â hwy
- 2 Gwybod am yr asedau gemau 3D a ddefnyddir i greu byd gemau
- 3 Gwybod sut y defnyddir peiriannau gemau 3D i greu byd gemau

4 Gallu creu byd gemau 3D mewn ymateb i fanyleb.

Cynnwys yr Uned

1 Gwybod am lwyfannau gemau 3D a'r dyfeisiau y gellir eu cysylltu â hwy

Lwyfannau gemau 3D: offer llaw, e.e. Gameboy, PSP, DS, ffôn symudol; cyfrifiadur personol (PC); consolau, e.e. Playstation, Xbox, Gamecube, Wii

Cysylltu consolau a dyfeisiau: consol i'r arddangosydd; dyfeisiau cebl i lwyfannau, e.e. bysellfwrdd, llygoden, rhodlen, ffon reoli, olwyn, pedalau, tegan llygad; dyfeisiau di-wifr i lwyfannau, e.e. ffon reoli, bysellfwrdd, llygoden, rheolydd, olwyn

2 Gwybod am yr asedau gemau 3D a ddefnyddir i greu byd gemau

Asedau graffeg: gwadau, rhwyllau, modelau

Asedau ymddygiad: ymddygiad, e.e. sbardunau, gweithredoedd, sgriptiau

Asedau sain: effeithiau; lefel y sain; cerddoriaeth; deialog; mathau o ffeiliau, e.e. wav, midi

3 Gwybod sut y defnyddir peiriannau gemau 3D i greu byd gemau

Peiriant gemau 3D: diben; offer a nodweddion, e.e. golygbyrth 3D, polygonau, goleuo, sbardunau, gwadau, rhwyllau, modelau, animeiddio, sgriptiau, sain

Dogfennaeth y defnyddiwr: canllaw i'r defnyddiwr; ffeiliau readme

Dosbarthu gêm: cyhoeddi, e.e. ffeiliau gweithredadwy, ffeiliau zip, dosbarthiad electronig

4 Gallu creu byd gemau 3D mewn ymateb i fanyleb

Cynllunio: amserlen; rheoli amser; gwaith tîm; terfynau amser

Manyleb Byd Gemau: cynhyrchu syniadau, e.e. cynulleidfa, brasluniau bawd, chwarae'r gêm, golwg persbectif camera; dogfennau manyleb y gêm, e.e. cynlluniau lefel, rhestr o'r asedau angenrheidiol

offer a nodweddion peiriant gemau 3D: creu byd gemau 3D, e.e. polygonau, goleuo, sbardunau, gwadau, digwyddiadau, gweithredoedd, rhwyllau, modelau, animeiddio, sgriptiau, sain

Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth a gyflwynir gan ddysgwyr i'w hasesu ddangos eu bod yn medru cyflawni'r holl ganlyniadau dysgu ar gyfer yr uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

| Meini prawf asesu a graddio | | |
|---|---|---|
| I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu: | I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu: | I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu: |
| LI1 amlinellu nodweddion llwyfannau gemau 3D a'r dyfeisiau y gellir eu cysylltu â hwy | T1 disgrifio nodweddion llwyfannau gemau 3D a'r dyfeisiau y gellir eu cysylltu â hwy gyda pheth manylder, a chan gyfeirio at enghreifftiau priodol ohonynt | Rh1 egluro nodweddion llwyfannau gemau 3D a'r dyfeisiau y gellir eu cysylltu â hwy, gan gyfeirio at enghreifftiau manwl gywir ohonynt, a defnyddio iaith dechnegol gywir |
| LI2 amlinellu asedau gemau 3D o ran graffeg, ymddygiad a sain | T2 disgrifio asedau gemau 3D o ran graffeg, ymddygiad a sain gyda pheth manylder, a chan gyfeirio at enghreifftiau priodol ohonynt | Rh2 egluro asedau gemau 3D o ran graffeg, ymddygiad a sain, gan gyfeirio at enghreifftiau manwl gywir ohonynt a defnyddio iaith dechnegol gywir |
| LI3 amlinellu sut y defnyddir peiriannau gemau 3D i greu byd gemau | T3 disgrifio sut y defnyddir peiriannau gemau 3D i greu byd gemau gyda pheth manylder, a chan gyfeirio at enghreifftiau priodol o hynny | Rh3 egluro sut y defnyddir peiriannau gemau 3D i greu byd gemau, gan gyfeirio at enghreifftiau manwl gywir o hynny a defnyddio iaith dechnegol gywir |
| LI4 cymhwyso offer a nodweddion peiriant gemau 3D i greu, i fanyleb, byd gemau y gellir chwarae ynddo sy'n gwireddu'r bwriadau'n rhannol. [MC, HR] | T4 cymhwyso offer a nodweddion peiriant gemau 3D yn gymwys i greu, i fanyleb, byd gemau y gellir chwarae ynddo sy'n gwireddu'r bwriadau i raddau helaeth. | Rh4 cymhwyso offer a nodweddion peiriant gemau 3D yn fedrus i greu, i fanyleb, byd gemau y gellir chwarae ynddo sy'n amlwg yn gwireddu'r bwriadau. |

PLTS: Lle bo hynny'n berthnasol, mae'r crynodeb hwn yn cyfeirio, mewn cromfachau petryal, at elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol i'r meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i ddysgwyr ddangos eu bod yn cymhwyso'r elfennau y cyfeiriwyd atynt o'r sgiliau hynny yn effeithiol.

| | | | |
|----------------|--------------------------|-------------------------|-----------------------------|
| Allwedd | YA - ymholwyr annibynnol | DA - dysgwyr adfyfyriol | HR - hunanreolwyr |
| | MC - meddylwyr creadigol | GT - gweithwyr tîm | CE - cyfranogwyr effeithiol |

Uned 18: Cynhyrchu Hysbysebion

| | |
|-----------------------------------|-------------------------------|
| Côd yr Uned: | M/600/6552 |
| FfCC Lefel 2: | Tystysgrif Gyntaf BTEC |
| Gwerth credydau : | 10 |
| Oriau dysgu dan arweiniad: | 60 |

Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yw cyflwyno i'r dysgwyr sut caiff hysbysebion eu creu ac ym mha ffyrdd maent yn gweithio. Bydd y dysgwyr yn astudio technegau hysbysebu sydd eisoes yn bodoli mewn nifer o gyfryngau, ac yn cynllunio ac yn cynhyrchu eu hysbyseb eu hunain mewn cyfrwng o'u dewis.

Cyflwyniad i'r Uned

Ni ellir gwahanu hysbysebu a'r cyfryngau. Mae rhyw ffurf ar hysbysebu'n bodoli ym mhob cyfrwng – teledu, ffilm, radio, y wasg, y rhyngwyd – ac mae hyn yn wir p'un a yw'r hysbysebu'n digwydd trwy allfa cyfryngau masnachol (lle mae'r hysbysebu'n amlwg ac yn aml yn rhoi cynhaliath ariannol) neu allfa cyfryngau gwasanaethau cyhoeddus (a fydd nid yn unig yn hysbysebu ei gynnyrch a'i wasanaethau ei hun, ond hefyd yn trosglwyddo hysbysebu cudd trwy raglenni chwaraeon, digwyddiadau noddedig a negeseuon cysylltiadau cyhoeddus sy'n rhan o eitemau newyddion). Yn sgîl hynny, y diwydiant hysbysebu yw un o'r mwyaf yn y sector cyfryngau creadigol.

Mae'r uned hon yn cyflwyno'r dysgwyr i dechnegau hysbysebu. Mae'n dangos iddynt sut mae datblygu syniadau ar gyfer hysbysebion, a sut mae cynllunio a chynhyrchu hysbysebion mewn cyfrwng dethol. Bydd gofyn bod y dysgwyr yn dadansoddi lluniad hysbyseb benodol, ynghyd â'r technegau a ddefnyddiwyd i ddarbwylllo. O'r sylfaen hon o wybodaeth, byddant yn medru cynllunio a chynhyrchu eu hysbysebion eu hunain.

Canlyniadau dysgu

Ar ôl cwblhau'r uned hon dylai dysgwr:

- 1 Wybod sut mae hysbysebion yn cael eu llunio
- 2 Gallu datblygu syniadau ar gyfer hysbyseb
- 3 Gallu creu hysbyseb

4 Gallu adolygu eu cynhyrchiad hysbysebu eu hunain.

Cynnwys yr Uned

1 Gwybod sut mae hysbysebion yn cael eu llunio

Cyfrwng: e.e. radio, teledu, sinema, rhyngweithiol, printiedig, poster

Cynnwys: e.e. naratif, gweledol, geiriol, trefn gwybodaeth, cerddoriaeth, SFX

Arddulliau: e.e. doniol, swreal, dramatig, realaeth

Technegau darbwylo: gwybodaeth am gynnyrch neu wasanaethau, e.e. nodweddion, manteision, cynnig gwerthu unigryw (USP); manipwleiddio emosiynol, e.e. defnyddio ofn, chwarae ar emosiwn, tosturi; adnabod y brand; cymeradwyaeth gan sêr

2 Gallu datblygu syniadau ar gyfer hysbyseb

Cynhyrchu syniadau: e.e. tasgu syniadau, trafodaeth grŵp, ymchwilio i arfer masnachol; gofynion, e.e. anghenion y cleient, cyfyngiadau technegol, costau, cynulleidfa neu farchnad darged

Triniaeth neu gynnig: cynulleidfa darged; cynnwys; arddull; strategaeth; cyllideb

Rheoliadau a chodau ymarfer: e.e. ystyriaethau cyfreithiol, yr Awdurdod Safonau Hysbysebu, Ofcom

3 Gallu creu hysbyseb

Rhag-gynhyrchu: paratoi a chynllunio, e.e. ar gyfer deunydd printiedig neu rhyngweithiol (copïo, elfennau gweledol, cynlluniau gosod, brasluniau, byrddau hwyliau, brasluniau bawd, drafftiau cynnar, defnydd o liw, ffontiau), ar gyfer delwedd symudol (sgript, bwrdd stori, sgript saethu), ar gyfer sain (sgript, cerddoriaeth, SFX, ciwiau); gofynion cynhyrchu, e.e. cyfarpar, criw, actorion, mynd i weld lleoliadau; amserlenni cynhyrchu, logiau cynhyrchu

Cynhyrchu: e.e. drafftio, gosodiad, ysgrifennu copi, recordio, ffilmio

Ôl-gynhyrchu: e.e. ar gyfer cyfryngau printiedig, ar gyfer cyfryngau rhyngweithiol, ar gyfer delwedd symudol, ar gyfer sain

4 Gallu adolygu eu cynhyrchiad hysbysebu eu hunain

Cynnyrch gorffenedig: cymharu â'r bwriadau gwreiddiol; nodweddion technegol; nodweddion esthetig; nodweddion darbwylo

Y broses gynhyrchu: cynhyrchu (cymwyseddau technegol, gallu creadigol); ôl-gynhyrchu (cymwyseddau technegol, gallu creadigol)

Ffynonellau gwybodaeth: huanwerthuso, logiau cynhyrchu, sylwadau gan eraill, e.e. cynulleidfa, cymheiriaid, tiwtoriaid, y cleient

Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth a gyflwynir gan ddysgwyr i'w hasesu ddangos eu bod yn medru cyflawni'r holl ganlyniadau dysgu ar gyfer yr uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

| Meini prawf asesu a graddio | | |
|---|---|---|
| I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu: | I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu: | I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu: |
| LI1 amlinellu hysbysebion o ran cynnwys, arddull a thechneg [YA] | T1 disgrifio hysbysebion yn nhermau cynnwys, arddull a thechneg gyda pheth manylder, a chan gyfeirio at enghreifftiau priodol o hynny | Rh1 egluro hysbysebion yn nhermau cynnwys, arddull a thechneg, gan gyfeirio at enghreifftiau manwl gywir ohonynt |
| LI2 cyflwyno syniad priodol ar gyfer hysbyseb [MC] | T2 cyflwyno syniad a ddatblygwyd ar gyfer hysbyseb | Rh2 cyflwyno syniad llawn dychymyg ar gyfer hysbyseb |
| LI3 defnyddio technegau a thechnoleg priodol i greu hysbyseb sy'n gwireddu'r bwriadau'n rhannol [MC, HR] | T3 defnyddio technegau a thechnoleg priodol yn gymwys i greu hysbyseb sy'n gwireddu'r bwriadau i raddau helaeth | Rh3 defnyddio technegau a thechnoleg priodol yn fedrus i greu hysbyseb sy'n amlwg yn gwireddu'r bwriadau |
| LI4 adolygu cryfderau a gwendidau eich gwaith cynhyrchu hysbyseb eich hun. [DA] | T4 disgrifio cryfderau a gwendidau eich gwaith cynhyrchu hysbyseb eich hun gyda pheth manylder a chan gyfeirio at enghreifftiau priodol o hynny. | Rh4 gwerthuso cryfderau a gwendidau eich gwaith cynhyrchu hysbyseb eich hun, gan gyfeirio at enghreifftiau manwl gywir o hynny. |

PLTS: Lle bo hynny'n berthnasol, mae'r crynodeb hwn yn cyfeirio, mewn cromfachau petryal, at elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol i'r meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i ddysgwyr ddangos eu bod yn cymhwyso'r elfennau y cyfeiriwyd atynt o'r sgiliau hynny yn effeithiol.

| Allwedd | YA - ymholwyr annibynnol | DA - dysgwyr adfyfyril | HR - hunanreolwyr |
|---------|--------------------------|------------------------|-----------------------------|
| | MC - meddylwyr creadigol | GT - gweithwyr tîm | CE - cyfranogwyr effeithiol |

Uned 19: Ysgrifennu ar gyfer y Cyfryngau Creadigol

| | |
|-----------------------------------|-------------------------------|
| Côd yr Uned: | F/600/6555 |
| FfCC Lefel 2: | Tystysgrif Gyntaf BTEC |
| Gwerth credydau : | 10 |
| Oriau dysgu dan arweiniad: | 60 |

Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yw cyflwyno dysgwyr i'r rhesymau dros ysgrifennu ar gyfer y cyfryngau creadigol a'r dulliau o wneud hynny. Bydd y dysgwyr yn ymchwilio i syniadau ac yn eu datblygu, yn creu deunyddiau ysgrifenedig gan ddefnyddio confensiynau priodol, ac yn archwilio'r berthynas rhwng y broses o ysgrifennu a'r cynnyrch a gynhyrchwyd yn eu dewis faes yn y cyfryngau.

Cyflwyniad i'r Uned

Yn achos rhai diwydiannau yn y sector cyfryngau creadigol, megis y wasg, mae ysgrifennu bron â bod yn ddiben ynddo'i hun. Mae adroddiadau, erthyglau, adolygiadau o lyfrau, ffilmiau a dramâu, ac mewn rhai cyfnodolion, straeon byrion, i gyd yn enghreifftiau o ysgrifennu i gynulleidfa benodol gan ddefnyddio dull priodol o ysgrifennu. Mewn llawer o ddiwydiannau eraill mae ysgrifennu yn sylfaen ar gyfer cynnyrch terfynol gwahanol, gydag ysgrifennu sgriptiau ar gyfer ffilmiau, teledu a'r radio yn enghraifft amlwg. Mae pob un o'r gweithgareddau hyn yn galw am gymhwyso sgiliau ysgrifennu arbenigol gwahanol, a dealltwriaeth o ffurf a chonfensiynau'r cynnyrch amrywiol, ond mae pob un ohonynt yn gofyn bod awduron yn gyfforddus gyda'r iaith ysgrifenedig, yn gallu eu mynegi eu hunain yn eglur, ac yn defnyddio sgiliau sylfaenol sillafu, atalnodi a gramadeg. Mae ysgrifennu da ar gyfer y cyfryngau yn creu cynnyrch priodol, defnyddiadwy, sy'n canolbwyntio ar y gynulleidfa, ac mae'n dilyn bod dealltwriaeth o'r broses ysgrifennu yn bwysig ar gyfer y rhai sy'n gweithio yn y sector hwnnw, beth bynnag yw eu maes arbenigol.

Mae'r uned hon yn gyntaf yn cyflwyno'r dysgwyr i wahanol gymwysiadau ysgrifennu ar gyfer y cyfryngau, ac yna i dechnegau a chonfensiynau ysgrifennu ar gyfer diwydiant penodol yn y sector. Gan ddechrau gydag ymchwil i'r dulliau a ddefnyddir gan awduron proffesiynol, mae'r uned wedyn yn gofyn bod dysgwyr yn cynhyrchu syniadau ac yn eu troi yn ddeunydd ysgrifenedig wedi'i wireddu'n llawn, sydd wedi ei gyflwyno'n gywir ar gyfer y cyfrwng a'r ffurf a ddewiswyd. Yn olaf, mae'r uned yn caniatáu i'r dysgwyr fyfyrto ar effeithiolrwydd y gwaith a grewyd a deall yr angen am adolygu a gwella.

Canlyniadau dysgu

Ar ôl cwblhau'r uned hon dylai dysgwr:

- 1 Wybod am wahanol fathau o ysgrifennu a gynhyrchir yn y sector cyfryngau creadigol
- 2 Gallu cynhyrchu syniadau ar gyfer deunydd ysgrifenedig
- 3 Gallu cynhyrchu deunydd ysgrifenedig
- 4 Gallu adolygu eu gwaith ysgrifennu eu hunain.

Cynnwys yr Uned

1 Gwybod am wahanol fathau o ysgrifennu a gynhrychir yn y sector cyfryngau creadigol

Diwydiannau'r cyfryngau: e.e. ffilm, teledu, fideo, radio, cylchgonau, papurau newydd, y we fyd-eang, llyfrau comig, gemau cyfrifiadur

Mathau o ysgrifennu: e.e. newyddiaduraeth papur newydd, newyddiaduraeth a ddarlledir, newyddiaduraeth cylchgonau, sgriptio rhaglenni dogfen, sgriptio teledu, sgriptio ffilm, sgriptio radio, ffuglen, stori gêm, copi hysbysebu, cynnwys ar gyfer y we

2 Gallu cynhyrchu syniadau ar gyfer deunydd ysgrifenedig

Symbyliad: e.e. brîff, comisiwn, cystadleuaeth, cynnig manyleb wedi'i thargedu, diddordeb personol, marchnad bosib

Datblygiad: e.e. tasgu syniadau, cyfarfodydd y tîm cynhyrchu, cymryd nodiadau, ysgrifennu fel tîm, y broses fireinio, trafodaethau creadigol, datblygiad y grŵp, crynodeb fesul golygfa

Ystyriaethau: gofynion y cleient; gofynion y gynulleidfa; confensiynau'r genre; confensiynau naratif; strwythur y naratif; cynnwys; arddull; marchnadfa; dylanwad cynnyrch eraill llwyddiannus; amserlen

Ymchwil: cynnwys, e.e. ffynonellau cynradd, ffynonellau eilaidd, deunydd printiedig, safleoedd ar y rhyngwyd, recordiadau fideo a sain, cyfweiliadau; marchnad, e.e. arfer cyfredol, canllawiau cynhyrchu, cyngor awduron a gyhoeddwyd

Paratoi: triniaeth; crynodeb; amlinelliad

3 Gallu cynhyrchu deunydd ysgrifenedig

Confensiynau: e.e. ciwiau, disgrifiad gweledol, defnydd o'r camera, sgript saethu, deialog, cerddoriaeth ac effeithiau sain, dolenni dilyniant, sylwebaeth, lleisio, cymeriadu, arddull, dull cyfarch, penawdau, is-benawdau, darluniadau, graffeg, cyfleu gwybodaeth, confensiynau'r genre

Cynllun: wyneb-ddalen; rhifau'r tudalennau; toriadau tudalen; colofnau; modd darllen ar yr olwg gyntaf; arddull a maint y ffont; bylchiad; aliniad

Cywirdeb: sillafu; gramadeg; cystrawen; atalnodi; disgrifiad; cynnwys ffeithiol; enwau

4 Gallu adolygu eu gwaith ysgrifennu eu hunain

Gwaith gorffenedig: cymharu â'r syniadau gwreiddiol; addasrwydd i'r gynulleidfa; priodoldeb ar gyfer y briff; cynnwys; strwythur; sgiliau ysgrifennu, e.e. mynegiant, sillafu, atalnodi, gramadeg, cyflwyno gwybodaeth, arddull, nodweddion esthetig, ystyriaethau genre:

Y broses gynhyrchu: sgiliau ymchwil; rheoli amser; ailysgrifennu; gwaith tîm; datblygiad creadigol; menter

Ffynonellau gwybodaeth: huanwerthuso; dogfennaeth, e.e. nodiadau syniadau, nodiadau o gyfarfodydd, drafftiau; sylwadau gan eraill, e.e. y gynulleidfa, cymheiriaid, tiwtoriaid, y cleient

Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth a gyflwynir gan ddysgwyr i'w hasesu ddangos eu bod yn medru cyflawni'r holl ganlyniadau dysgu ar gyfer yr uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

| Meini prawf asesu a graddio | | |
|---|---|---|
| I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu: | I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu: | I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu: |
| LI1 amlinellu gwahanol fathau o ysgrifennu a gynhyrchir yn y sector cyfryngau creadigol [YA] | T1 disgrifio gwahanol fathau o ysgrifennu a gynhyrchir yn sector y cyfryngau creadigol gyda pheth manylder, a chan gyfeirio at enghreifftiau priodol ohonynt | Rh1 gwerthuso gwahanol fathau o ysgrifennu a gynhyrchir yn y sector cyfryngau creadigol, gan gyfeirio at enghreifftiau manwl gywir ohonynt |
| LI2 cyflwyno syniadau priodol ar gyfer deunydd ysgrifenedig [MC] | T2 cyflwyno syniadau a ddatblygwyd ar gyfer deunydd ysgrifenedig | Rh2 cyflwyno syniadau llawn dychymyg ar gyfer deunydd ysgrifenedig |
| LI3 cymhwyso confensiynau a sgiliau technegol i gynhyrchu deunydd ysgrifenedig sy'n gwireddu'r bwriadau'n rhannol [HR] | T3 cymhwyso confensiynau yn gymwys, a sgiliau technegol gyda pheth cywirdeb i gynhyrchu deunydd ysgrifenedig sy'n gwireddu'r bwriadau i raddau helaeth | Rh3 cymhwyso confensiynau yn fedrus a sgiliau technegol yn gywir i gynhyrchu deunydd ysgrifenedig sy'n amlwg yn gwireddu'r bwriadau |
| LI4 adolygu cryfderau a gwendidau eich gwaith ysgrifennu eich hun. [DA] | T4 disgrifio cryfderau a gwendidau eich gwaith ysgrifennu eich hun gyda pheth manylder a chan gyfeirio at enghreifftiau priodol o hynny. | Rh4 gwerthuso cryfderau a gwendidau eich gwaith ysgrifennu eich hun, gan gyfeirio at enghreifftiau manwl gywir o hynny. |

PLTS: Lle bo hynny'n berthnasol, mae'r crynodeb hwn yn cyfeirio, mewn cromfachau petryal, at elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol i'r meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i ddysgwyr ddangos eu bod yn cymhwyso'r elfennau y cyfeiriwyd atynt o'r sgiliau hynny yn effeithiol.

| Allwedd | YA - ymholwyr annibynnol | DA - dysgwyr adfyfyriol | HR - hunanreolwyr |
|---------|--------------------------|-------------------------|-----------------------------|
| | MC - meddylwyr creadigol | GT - gweithwyr tîm | CE - cyfranogwyr effeithiol |

Uned 20: Cynhyrchu Ffeithiol ar gyfer y Cyfryngau Creadigol

| | |
|-----------------------------------|-------------------------------|
| Côd yr Uned: | J/600/6556 |
| FfCC Lefel 2: | Tystysgrif Gyntaf BTEC |
| Gwerth credydau : | 10 |
| Oriau dysgu dan arweiniad: | 60 |

Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yw datblygu dealltwriaeth y dysgwyr o fformatau ffeithiol ar draws y sector cyfryngau creadigol a'u sgiliau o ran cynhyrchu ffeithiol mewn un cyfrwng.

Cyflwyniad i'r Uned

Mae cynhyrchu ffeithiol yn cwmpasu ystod eang o weithgaredd cyfryngau creadigol ym mhob rhan o'r sector. Yn gyffredinol, cymerid ei fod yn cyfeirio at gynhyrchu newyddion ar gyfer y wasg a darlledu, ond byddai hefyd yn cynnwys sbectrwm o weithgareddau o gynhyrchu rhaglenni dogfen i adolygu. I rai byddai'n cynnwys 'teledu realaeth', er y byddai eraill yn rhoi'r mwyafrif o hynny ar ochr arall y ffin rhwng rhaglennu ffeithiol ac adloniant. Fodd bynnag, yma, fel mewn cynifer o feysydd eraill sy'n rhan o gynhyrchu ar gyfer y cyfryngau, nid yw bob amser yn bosib gwahaniaethu'n bendant.

Yn yr uned hon bydd y dysgwyr yn dod yn gyfarwydd â fformatau ac arddulliau cynhyrchu ffeithiol ar draws y cyfryngau, ac yn cael cyfle i greu eu cynnyrch cyfryngau ffeithiol eu hunain mewn cyfrwng penodedig.

Mae'r uned yn canolbwyntio ar ddatblygu sgiliau dysgwyr o ran deall, ymchwilio, datblygu, cynhyrchu a gwerthuso cynnyrch cyfryngau ffeithiol. Gallai hyn gynnwys rhaglenni dogfen ac erthyglau ar y teledu, adroddiadau gwyliau a defnyddwyr, adroddiadau newyddion ac ysgrifennu newyddion, erthyglau papur newydd a gwefannau, neu wefannau cyfan. Dylid rhoi pwyslais pendant ar yr elfen 'ffeithiol'.

Canlyniadau dysgu

Ar ôl cwblhau'r uned hon dylai dysgwr:

- 1 Wybod beth yw confensiynau fformatau cyfryngau ffeithiol
- 2 Gallu cynhyrchu syniadau ar gyfer cynnyrch cyfryngau ffeithiol
- 3 Gallu creu cynnyrch cyfryngau ffeithiol sy'n dilyn confensiynau priodol
- 4 Gallu adolygu eu gwaith eu hunain ar gynhyrchiad cyfryngau ffeithiol.

Cynnwys yr Uned

1 Gwybod beth yw confensiynau fformatau cyfryngau ffeithiol

Fformatau: e.e. eitem newyddion ar y teledu, eitem newyddion ar y radio, erthygl mewn papur newydd, erthygl mewn cylchgrawn, erthygl ar wefan papur newydd, rhaglen ddogfen ar y teledu, rhaglen ddogfen ffilm, rhaglen ddogfen radio, dyddiadur fideo, gwefan a seiliwyd ar ffeithiau, blog, wiki, podlediad, tweet

Confensiynau: ffurf, e.e. person cyntaf, trydydd person, gwrthrychol, goddrychol, llygad-dyst, awdurdodol, ar wahân, rhyngweithiol; strwythur (yn dibynnu ar y cyfrwng a'r ffurf); cynnwys, e.e. cyfweiliadau, delweddau, naratif cysylltu; confensiynau technegol, e.e. iaith, gwaith camera, cynllun; arddull o gyfarch y gynulleidfa;

2 Gallu cynhyrchu syniadau ar gyfer cynnyrch cyfryngau ffeithiol

Cynnyrch: e.e. eitem newyddion ar y teledu, eitem newyddion ar y radio, erthygl mewn papur newydd, erthygl mewn cylchgrawn, erthygl ar wefan papur newydd, rhaglen ddogfen ar y teledu, rhaglen ddogfen ffilm, rhaglen ddogfen radio, dyddiadur fideo, gwefan a seiliwyd ar ffeithiau

Cynhyrchu syniadau: tasgu syniadau; trafod; arbrofi (priodol ar gyfer y fformat cyfryngau y gweithir ynddo); ymchwil (cefnidir, cynnwys, pobl, lleoedd, ystyriaethau cyfreithiol a moesegol)

Cynulleidfa: cynulleidfa darged; lleoliad, e.e. sianel, slot y rhaglen, cyhoeddi, gwefannau cysylltiedig, llwyfan symudol

3 Gallu creu cynnyrch cyfryngau ffeithiol sy'n dilyn confensiynau priodol

Rhag-gynhyrchu: amserlennu; paratoi adnoddau, e.e. cyfleusterau, cyfarpar, ffynonellau gwybodaeth, pobl i'w cyfweld; dogfennaeth sy'n briodol ar gyfer y cyfrwng

Cynhyrchu: fel sy'n briodol ar gyfer y cyfrwng, e.e. ffilmio, recordio sain, cynnal cyfweiliadau, adolygu, cyhoeddi pen desg, dylunio gwefan

Ôl-gynhyrchu: fel sy'n briodol ar gyfer y cyfrwng, e.e. golygu sain, llun a chopi, prawfddarllen, gwirio dolenni, llwytho gwefannau i fyny, argraffu copïau terfynol, ysgrifennu i CD neu DVD

Confensiynau: ffurf, e.e. person cyntaf, trydydd person, gwrthrychol, goddrychol, llygad-dyst, awdurdodol, ar wahân, rhyngweithiol; strwythur (yn dibynnu ar y cyfrwng a'r ffurf); cynnwys, e.e. cyfweiliadau, delweddau, naratif cysylltu; confensiynau technegol, e.e. iaith, gwaith camera, cynllun; arddull o gyfarch y gynulleidfa;

4 Gallu adolygu eu gwaith eu hunain ar gynhyrchiad cyfryngau ffeithiol

Cynnyrch gorffenedig: cymharu â'r syniadau gwreiddiol; priodoldeb ar gyfer y gynulleidfa; nodweddion technegol; nodweddion esthetig; cynnwys; arddull

Y broses gynhyrchu: rhag-gynhyrchu, e.e. ymchwil, cynllunio; cynhyrchu, e.e. rheoli amser, rheoli'r prosiect, cymwyseddau technegol, gallu creadigol, eich gwaith eich hun, gwaith tîm; ôl-gynhyrchu, e.e. rheoli amser, rheoli'r prosiect, cymwyseddau technegol, gallu creadigol, eich gwaith eich hun, gwaith tîm

Ffynonellau gwybodaeth: huanwerthuso; dogfennaeth, e.e. nodiadau, cofnodion cyfarfodydd, sgriptiau, gwaith bras, amserlenni, logiau cynhyrchu; sylwadau gan eraill, e.e. y gynulleidfa, cymheiriaid, tiwtoriaid, y cleient

Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth a gyflwynir gan ddysgwyr i'w hasesu ddangos eu bod yn medru cyflawni'r holl ganlyniadau dysgu ar gyfer yr uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

| Meini prawf asesu a graddio | | |
|--|--|--|
| I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu: | I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu: | I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu: |
| 1 amlinellu confensiynau fformatau cyfryngau ffeithiol | T1 disgrifio confensiynau fformatau cyfryngau ffeithiol gyda pheth manylder, a chan gyfeirio at enghreifftiau priodol ohonynt | Rh1 gwerthuso confensiynau fformatau cyfryngau ffeithiol gan gyfeirio at enghreifftiau manwl gywir ohonynt |
| LI2 cyflwyno syniadau ar gyfer cynnyrch cyfryngau ffeithiol [MC] | T2 cyflwyno syniadau a ddatblygwyd ar gyfer cynnyrch cyfryngau ffeithiol | Rh2 cyflwyno syniadau a ddatblygwyd yn dda ac sy'n llawn dychymyg ar gyfer cynnyrch cyfryngau ffeithiol |
| LI3 cymhwyso confensiynau priodol a defnyddio technoleg briodol i greu cynnyrch cyfryngau ffeithiol sy'n gwireddu'r bwriadau'n rhannol [YA, HR] | T3 cymhwyso confensiynau priodol a defnyddio technoleg briodol yn gymwys i greu cynnyrch cyfryngau ffeithiol sy'n gwireddu'r bwriadau i raddau helaeth | Rh3 cymhwyso confensiynau priodol a defnyddio technoleg briodol yn fedrus i greu cynnyrch cyfryngau ffeithiol sy'n amlwg yn gwireddu'r bwriadau |
| LI4 adolygu cryfderau a gwendidau eich gwaith cynhyrchu cyfryngau ffeithiol eich hun. [DA] | T4 disgrifio cryfderau a gwendidau eich gwaith cynhyrchu cyfryngau ffeithiol eich hun gyda pheth manylder a chan gyfeirio at enghreifftiau priodol o hynny. | Rh4 gwerthuso cryfderau a gwendidau eich gwaith cynhyrchu cyfryngau ffeithiol eich hun, gan gyfeirio at enghreifftiau manwl gywir o hynny. |

PLTS: Lle bo hynny'n berthnasol, mae'r crynodeb hwn yn cyfeirio, mewn cromfachau petryal, at elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol i'r meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i ddysgwyr ddangos eu bod yn cymhwyso'r elfennau y cyfeiriwyd atynt o'r sgiliau hynny yn effeithiol.

| Allwedd | YA - ymholwyr annibynnol MC - meddylwyr creadigol | DA - dysgwyr adfyfyril GT - gweithwyr tîm | HR - hunanreolwyr CE - cyfranogwyr effeithiol |
|---------|--|--|--|
|---------|--|--|--|

Uned 21: Prosiect Cynhyrchu'r Cyfryngau Creadigol

| | |
|-----------------------------------|-------------------------------|
| Côd yr Uned: | L/600/6557 |
| FfCC Lefel 2: | Tystysgrif Gyntaf BTEC |
| Gwerth credydau : | 10 |
| Oriau dysgu dan arweiniad: | 60 |

Nod a phwrpas

Nod yr uned hon yw galluogi'r dysgwyr i gymhwyso sgiliau cynhyrchu i greu cynnyrch cyfryngau o'u dewis eu hunain. Bydd y dysgwyr yn cynhyrchu cynnig cychwynnol ac yn ei ddatblygu o'r cyfnod rhag-gynhyrchu hyd at ei gwblhau. Bydd y dysgwyr hefyd yn gwerthuso cryfderau a gwendidau'r cynnyrch terfynol.

Cyflwyniad i'r Uned

Gwneir mwyafrif llethol gwaith cynhyrchu'r cyfryngau gan dimau o bobl, ac yn aml iawn mae'r sawl sy'n rheolwr cyffredinol ar brosiect yn gweithio yn ôl brîff neu gyfres o ganllawiau nad oes ganddo/ganddi unrhyw reolaeth drostynt. Mae'n anghyffredin, felly, i un person sefydlu prosiect a gweithio arno nes ei fod wedi'i gwblhau, gan reoli'r broses o'r dechrau i'r diwedd.

Fodd bynnag, gosodir gwerth mawr yn y diwydiant ar y gallu i greu syniadau ac i ddeall sut y gellid eu gwireddu mewn cynhyrchiad, ac mae'r uned hon yn rhoi cyfle i'r dysgwyr, naill ai'n unigol neu mewn grŵp bach, ddatblygu peth dealltwriaeth o sut brofiad yw sefydlu a chyflawni eu prosiect cynhyrchu eu hunain.

Yn yr uned hon bydd y dysgwyr yn creu cynnig ar gyfer cynnyrch cyfryngau, ac yna yn ymchwilio, yn cynllunio ac yn cynhyrchu'r prosiect maent wedi ei ddyfeisio. Byddant hefyd yn asesu ansawdd y cynnyrch a'u perfformiad eu hunain wrth ei gynhyrchu.

Gellir gwireddu'r prosiect mewn unrhyw gyfrwng neu ffurf - fideo, ffilm, sain, print, cyfryngau rhyngweithiol, eitem newyddion, animeiddio, gwefan, gêm cyfrifiadur ac ati.

Canlyniadau dysgu

Ar ôl cwblhau'r uned hon dylai dysgwr:

- 1 Allu paratoi cynnig ar gyfer cynnyrch cyfryngau
- 2 Gallu cwblhau'r camau rhag-gynhyrchu ar gyfer cynnyrch cyfryngau a gynigiwyd
- 3 Gallu creu cynnyrch cyfryngau a gynigiwyd
- 4 Gallu adolygu eu gwaith eu hunain ar y prosiect cynhyrchu.

Cynnwys yr Uned

1 Gallu paratoi cynnig ar gyfer cynnyrch cyfryngau

Paratoi: creu syniad addas; ysgrifennu dogfen gynnig

Dogfen gynnig: fformat priodol ar gyfer y cyfrwng a'r sector; teitl y gwaith; genre; cynnwys; arddull neu agwedd; cynulleidfa; hyd

Ystyriaethau cyfreithiol a moesegol: cyfyngiadau cyfreithiol, e.e. cyfyngiadau oed, preifatrwydd, cyfraith enllib, difenwi, cyfraith gwahaniaethu ar sail hil, diogelu data, rhyddid gwybodaeth, hawlfraint; codau ymarfer, e.e. canllawiau'r BBC, codau ymarfer y wasg, canllawiau hygyrchedd ar y we (W3C), safonau hysbysebu

2 Gallu cwblhau'r camau rhag-gynhyrchu ar gyfer cynnyrch cyfryngau a gynigiwyd

Paratoi cyffredinol: e.e. canfod a chofnodi'r tasgau i'w cwblhau, y rolau i'w mabwysiadu, strategaethau'r gwaith tîm, y technegau i'w defnyddio, yr adnoddau angenrheidiol, logisteg, cliriadau a chaniatâd; materion iechyd a diogelwch, e.e. asesiadau risg

Rhag-gynhyrchu: ymchwil, e.e. cynnwys, dichonoldeb a chynulleidfa; gwireddu, e.e. sgriptiau drafft, sgript terfynol, byrddau hwyliau, brasluniau bawd, bwrdd stori, amserlen gynhyrchu, mynd i weld lleoliadau, cyfranwyr, doniau, ffynonellau

3 Gallu creu cynnyrch cyfryngau a gynigiwyd

Cynhyrchu: e.e. saethu fideo, golygu fideo, recordio sain, golygu sain, creu delweddau, cael hyd i ddelweddau, digideiddio a manipwleiddio delweddau, ysgrifennu copi, prawfddarllen, gosod y deunydd, rhoi'r tudalennau at ei gilydd, profi, llwytho i fyny

Nodweddion: nodweddion technegol ac esthetig sy'n briodol ar gyfer y cyfrwng, y genre a'r fformat

Bwriadau: y berthynas â'r cynnig o ran cynnwys, arddull, cynulleidfa ac allfa arfaethedig

4 Gallu adolygu eu gwaith eu hunain ar y prosiect cynhyrchu

Cynnyrch gorffenedig: cymharu â'r cynnig gwreiddiol, priodoldeb ar gyfer y gynulleidfa, nodweddion technegol, nodweddion esthetig, cynnwys, arddull

Y broses gynhyrchu: rhag-gynhyrchu, e.e. ymchwil, cynllunio; cynhyrchu, e.e. rheoli amser, rheoli'r prosiect, cymwyseddau technegol, gallu creadigol, eich gwaith eich hun, gwaith tîm; ôl-gynhyrchu, e.e. rheoli amser, rheoli'r prosiect, cymwyseddau technegol, gallu creadigol, eich gwaith eich hun, gwaith tîm

Ffynonellau gwybodaeth: huanwerthuso; dogfennaeth, e.e. nodiadau syniadau, nodiadau o gyfarfodydd, drafftiau, logiau cynhyrchu; sylwadau gan eraill, e.e. y gynulleidfa, cymheiriaid, tiwtoriaid, y cleient

Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth a gyflwynir gan ddysgwyr i'w hasesu ddangos eu bod yn medru cyflawni'r holl ganlyniadau dysgu ar gyfer yr uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n ofynnol i lwyddo yn yr uned hon.

| Meini prawf asesu a graddio | | |
|---|---|---|
| I gael gradd llwyddo mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu: | I gael gradd teilyngdod mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu: | I gael gradd rhagoriaeth, mae'n rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â'r meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu: |
| LI1 paratoi cynnig ysgrifenedig ar gyfer cynnyrch cyfryngau [YA, MC] | T1 paratoi cynnig ysgrifenedig datblygedig ar gyfer cynnyrch cyfryngau | Rh1 paratoi cynnig ysgrifenedig manwl, llawn dychymyg ar gyfer cynnyrch cyfryngau |
| LI2 cwblhau'r camau rhag-gynhyrchu ar gyfer cynnyrch cyfryngau a gynigiwyd [HR] | T2 cwblhau'r camau rhag-gynhyrchu yn gymwys ar gyfer cynnyrch cyfryngau a gynigiwyd | Rh2 cwblhau'r camau rhag-gynhyrchu yn drwyadl ar gyfer cynnyrch cyfryngau a gynigiwyd |
| LI3 defnyddio technoleg a thechnegau priodol i greu cynnyrch cyfryngau a gynigiwyd sy'n gwireddu'r bwriadau'n rhannol [HR] | T3 defnyddio technoleg a thechnegau priodol yn gymwys i greu cynnyrch cyfryngau a gynigiwyd sy'n gwireddu'r bwriadau i raddau helaeth | Rh3 defnyddio technoleg a thechnegau priodol yn fedrus i greu cynnyrch cyfryngau a gynigiwyd sy'n amlwg yn gwireddu'r bwriadau |
| LI4 adolygu cryfderau a gwendidau eich gwaith prosiect cynhyrchu eich hun. [DA] | T4 disgrifio cryfderau a gwendidau eich gwaith prosiect cynhyrchu eich hun gyda pheth manylder a chan gyfeirio at enghreifftiau priodol ohono. | Rh4 gwerthuso cryfderau a gwendidau eich gwaith prosiect cynhyrchu eich hun, gan gyfeirio at enghreifftiau manwl gywir ohono. |

PLTS: Lle bo hynny'n berthnasol, mae'r crynodeb hwn yn cyfeirio, mewn cromfachau petryal, at elfennau'r sgiliau personol, dysgu a meddwl sy'n berthnasol i'r meini prawf llwyddo. Mae'n nodi cyfleoedd i ddysgwyr ddangos eu bod yn cymhwyso'r elfennau y cyfeiriwyd atynt o'r sgiliau hynny yn effeithiol.

| Allwedd | YA - ymholwyr annibynnol MC - meddylwyr creadigol | DA - dysgwyr adfyfyriol GT - gweithwyr tîm | HR - hunanreolwyr CE - cyfranogwyr effeithiol |
|---------|--|---|--|
|---------|--|---|--|